# Agenda - Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 18 Ionawr 2024

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddHinsawdd@senedd.cymru

**Rhag-gyfarfod preifat** (09.15-09.30)

**Cyfarfod cyhoeddus** (09.30-11.00)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Gwaith craffu blynyddol ar waith Cyfoeth Naturiol Cymru

(09.30-11.00) (Tudalennau 1 - 29)

Syr David Henshaw, Cadeirydd - Cyfoeth Naturiol Cymru

Clare Pillman, Prif Weithredwr - Cyfoeth Naturiol Cymru

Prys Davies, Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Corfforaethol - Cyfoeth Naturiol Cymru

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23 Cyfoeth Naturiol Cymru (PDF, 1MB)

**Dogfennau atodol:**

Papur - Cyfoeth Naturiol Cymru

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23 - Cyfoeth Naturiol Cymru

Briff ymchwil - Gwaith craffu blynyddol ar waith Cyfoeth Naturiol Cymru

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 Papurau i'w nodi (11.00)

### 3.1 Gwaith craffu cyffredinol ar waith y Gweinidog Newid Hinsawdd

(Tudalennau 30 - 44)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Newid Hinsawdd mewn perthynas â gwaith craffu cyffredinol ar waith y Gweinidog Newid Hinsawdd

Ymateb gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Cadeirydd mewn perthynas â gwaith craffu cyffredinol ar waith y Gweinidog Newid Hinsawdd

### 3.2 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(Tudalen 45)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Prif Weinidog at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn Nulyn

### 3.3 Cynllun Masnachu Allyriadau y DU

(Tudalennau 46 - 48)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Cadeirydd mewn perthynas â Chynllun Masnachu Allyriadau y DU

### 3.4 Llywodraethiant y DU a'r UE

(Tudalennau 49 - 50)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Cadeirydd mewn perthynas ag ymchwiliad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i lywodraethiant y DU a'r UE

### 3.5 Ansawdd dŵr a gollyngiadau carthion

(Tudalennau 51 - 54)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Cyfoeth Naturiol Cymru at y Cadeirydd gyda thystiolaeth ychwanegol mewn perthynas â sesiwn dystiolaeth ansawdd dŵr a gollyngiadau carthion ar 9 Tachwedd

**3.6 Dull Rheoli Maethynnau Uwch**

(Tudalennau 55 - 61)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Cyswllt Amgylchedd Cymru - Grŵp Defnydd Tir at y Cadeirydd mewn perthynas â Dull Rheoli Maethynnau Uwch (Saesneg yn unig)

**3.7 Bil Seilwaith (Cymru)**

(Tudalennau 62 - 76)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Cyfnod 1 Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar y Bil Seilwaith (Cymru)

Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Cadeirydd mewn perthynas â'r amserlen ar gyfer is-ddeddfwriaeth sy'n codi o'r Bil Seilwaith (Cymru)

**3.8 Safle glo brig Ffos-y-Fran**

(Tudalennau 77 - 78)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Newid Hinsawdd mewn perthynas â safle glo brig Ffos-y-Fran

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill cyfarfod heddiw

(11.00)

**Cyfarfod preifat** (11.00-12.00)

**Egwyl** (11.00-11.10)

## 5 Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 2

## 6 Trafod adroddiad drafft ar berfformiad Dŵr Cymru

(Tudalen 79)

**Dogfennau atodol:**

Adroddiad drafft ar berfformiad Dŵr Cymru (Saesneg yn unig)

## 7 Trafod adroddiad drafft ar y blaenoriaethau ar gyfer Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

(Tudalennau 80 - 112)

**Dogfennau atodol:**

Adroddiad drafft ar 2024-26 flaenoriaethau (Saesneg yn unig)

## 8 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor - gwanwyn 2024

(Tudalennau 113 - 115)

**Dogfennau atodol:**

Blaenraglen Waith (Saesneg yn unig)

# Briff Tystiolaeth

## Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

## Craffu Blynyddol ar Waith Cyfoeth Naturiol Cymru - Ionawr 2024

## Cynnwys

1. Trosolwg
2. Cyllideb
3. Cynllun Corfforaethol a Dangosyddion Strategol
4. Cynllunio’r Gweithlu’n Strategol
5. Rhaglen Adfywio
6. Ansawdd Dŵr
7. Llifogydd
8. Natur a Ni
9. Recriwtio i’r Bwrdd

## 1. Trosolwg

I ategu manylion ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2022/2023, rydym wedi amlinellu isod rai meysydd gwaith allweddol er mwyn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau’r pwyllgor am weithgarwch mwy diweddar.

## 2. Cyllideb

Fel y gwyddoch yn iawn, mae’r sector cyhoeddus yn cael ei herio’n gynyddol o ran gorfod bodloni galwadau gwasanaeth dwysach wrth ymdopi â chyfyngiadau cyllid a chyllideb. Gwaethygir hyn gan ddemograffeg newidiol, sy'n cynnwys gweithlu sy'n heneiddio a chyfraddau swyddi gwag uchel mewn marchnad swyddi y mae'n gynyddol anodd inni gystadlu ynddi. Rydym hefyd yn gweld galw mawr am arbenigwyr mewn meysydd allweddol lle na allwn gyfateb cyflog y sector preifat ac mae hyn yn arwain at faterion denu a chadw hefyd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi wynebu pwysau ychwanegol sylweddol eleni, yn enwedig mewn perthynas â rheoli costau cynyddol yn ogystal ag effaith ansefydlogrwydd yn yr incwm o bren. Er ein bod wedi cymryd camau i leddfu’r pwysau ar ein cyllideb, megis rhewi recriwtio allanol a lleihau cyllidebau nad ydynt yn ymwneud â staff, erys heriau difrifol.

Rydym yn cynnal adolygiad trylwyr o’n holl weithgareddau i wneud y gostyngiadau pellach sydd eu hangen yn y gyllideb, a’n gosod ar lwybr cynaliadwy ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ac wedi hynny. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau’r arbedion effeithlonrwydd mwyaf posibl i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen, ond mae'n amlwg y bydd angen i ni leihau a/neu atal rhai gwasanaethau. Er mwyn gwireddu’r arbedion effeithlonrwydd hynny, bydd angen buddsoddi ac rydym yn trafod gyda Llywodraeth Cymru (LlC) – sydd wedi darparu swyddogion i ymwneud â phob rhan o’r broses hon – y posibilrwydd o wneud cais Buddsoddi i Arbed. Mae ein Tîm Gweithredol yn ystyried ein holl opsiynau ac yn gwybod y bydd rhai penderfyniadau anodd eu gwneud a fydd yn anochel yn effeithio ar wasanaethau y mae'r cyhoedd yn eu mwynhau ac yn eu disgwyl.

Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo a bydd y canlyniadau cychwynnol yn cael eu cyflwyno i'n Bwrdd, ar ddechrau mis Chwefror, gyda'r gyllideb derfynol a'r cynllun busnes i'w cytuno gan y Bwrdd ym mis Mawrth. Rydym yn cydnabod y byddwn yn gosod cyllideb o dros £250

miliwn y flwyddyn ariannol nesaf, sy'n cynrychioli buddsoddiad sylweddol i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur, hinsawdd a llygredd.

## 3. Cynllun Corfforaethol a Dangosyddion Strategol

Wedi'i lansio'n gynharach eleni, mae cynllun corfforaethol CNC, *Byd Natur a Phobl yn Ffynnu Gyda'n Gilydd* yn nodi ein gweledigaeth, ein cenhadaeth, a'n hamcanion llesiant hyd at 2030. Pan gyhoeddwyd y cynllun, gwnaethom ymrwymo i gryfhau'r system ar gyfer monitro'r gwaith o'i gyflawni yn erbyn ein hamcanion llesiant a'r camau i'w cymryd, fel y gallwn gael ein dwyn i gyfrif gan Weinidogion a phobl Cymru.

Ers mis Ebrill 2023, rydym wedi bod yn gweithio i gryfhau ein fframwaith rheoli perfformiad, gan gynnwys datblygu datganiadau effaith ynghyd â dangosyddion strategol a naratif ategol. Dyma haen gyntaf system adrodd ar berfformiad sy'n rhoi mewnwelediad ar lefel strategol i'n heffeithiolrwydd dros y tymor hir wrth fodloni uchelgais yr amcanion llesiant.

Byddwn yn cyhoeddi datganiadau effaith a dangosyddion strategol drafft ym mis Ionawr 2024. Er eu bod yn uchelgeisiol, mae'r datganiadau effaith drafft hefyd yn realistig ac yn gyraeddadwy, ac yn dangos y newid rydym am ei weld ar gyfer natur a phobl hyd at 2030 a thu hwnt. Mae'r datganiadau effaith yn edrych tuag allan ac yn cydnabod yn glir na all CNC eu cyflawni ar ei ben ei hun.

Mae deuddeg dangosydd strategol drafft hefyd wedi'u nodi i ddangos cynnydd tuag at gyflawni'r effeithiau. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar y llwybrau y mae angen i ni eu hailgyfeirio (y pethau sydd angen eu newid erbyn 2030). Mae ein dewis o ddangosyddion strategol yn canolbwyntio ar y pethau hynny sydd o fewn gallu CNC i ddylanwadu arnynt. Gall dangosyddion strategol gyfrannu at nifer o ddatganiadau effaith sy'n amlygu'r dull trawsbynciol a chyfannol yr ydym yn ei ddefnyddio i gynnal gwaith monitro ac adrodd.

I gyd-fynd â phob un o'r dangosyddion strategol, mae naratif ategol i'n galluogi i ddangos y cysylltiad ag elfennau cyfatebol ein darpariaeth weithredol. Bydd y naratif hefyd yn amlinellu'r cyd-destun ehangach yr ydym yn gweithio ynddo i ddangos dibyniaethau, nodi risgiau posibl, a darparu eglurder ar y cyfyngiadau allanol a'r meysydd o aneffeithlonrwydd yn y system ehangach a allai fod yn rhwystr i gynnydd. Bydd y naratif ategol yn cael ei adolygu bob cylch adrodd i adlewyrchu newidiadau.

Bydd perfformiad yn erbyn yr effeithiau drafft a'r dangosyddion strategol yn destun gwaith craffu gan y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd mewn trafodaethau strategol am yr amcanion llesiant drwy gydol y flwyddyn. Bydd y sesiynau hyn yn seiliedig ar yr effeithiau a'r dangosyddion strategol perthnasol ac yn cael eu llywio gan y naratif ategol. Y prif ffocws fydd ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan CNC i gyflawni'r uchod, gan nodi'r camau perthnasol i'w cymryd a'r metrigau perfformiad gweithredol sy'n gysylltiedig. Bydd y naratif hefyd yn myfyrio ar y cyd-destun allanol ehangach, gan gynnwys y llywodraeth, partneriaethau a chymdeithas ehangach, a dulliau rhyngwladol/byd-eang.

**Y Camau Nesaf**
Cyhoeddir y datganiadau effaith a dogfennaeth y dangosyddion strategol ar ffurf ddrafft ym mis Ionawr 2024, a chânt eu hasesu hyd at chwarter tri 2024/25 i sefydlu eu haddasrwydd a'r broses ar gyfer monitro ac adrodd yn eu herbyn. Gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r cyfnod profi hwn, cânt eu cwblhau yn hydref 2024 a bydd unrhyw newidiadau'n cael eu hargymell i'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd eu cymeradwyo. Wedi hynny, bydd y datganiadau effaith a'r dangosyddion strategol yn parhau'n sefydlog tan 2030.

Ochr yn ochr â hyn, bydd polisi a chanllawiau'r fframwaith rheoli perfformiad yn cael eu cwblhau er mwyn sicrhau bod yr hyn a ddysgwyd o'r cyfnod profi yn cael ei ymgorffori, bod eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau, a bod y rheolaethau sydd eu hangen i roi sicrwydd yn y llinell amddiffyn gyntaf a'r ail linell amddiffyn ar waith.

## 4. Cynllunio'r Gweithlu'n Strategol

Gwnaethom sefydlu Rhaglen Trawsnewid Pobl ym mis Awst 2022 i gyflawni ein Strategaeth Pobl (2022-2025). Mae'r strategaeth hon yn gofyn am ddatblygu Cynllun Gweithlu Strategol i lywio penderfyniadau ledled y busnes. Yn gychwynnol, rydym wedi canolbwyntio ar rai meysydd blaenoriaethol i brofi'r dull gweithredu ac i sicrhau ein bod yn cyflenwi'r budd mwyaf o ran mewnwelediadau ac ymyrraeth.

**Addysg a'r Byd Academaidd**
Rydym yn parhau i feithrin cydberthnasau â'r byd academaidd drwy ein Grŵp Tystiolaeth Mewnol, gan chwilio am gyfleoedd i gydweithio ar ymchwil, yn ogystal â chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol o ymgysylltu â myfyrwyr. Mae ein cysylltiadau â Phlatfform Amgylchedd Cymru yn ehangu, gyda mwy o gyfleoedd ymchwil yn cael eu cynnig yn ogystal â chefnogaeth i fodiwlau sy'n gysylltiedig â diwydiant trwy waith gyda Phrifysgol Aberystwyth. Mae'r cyfleoedd hyn, ynghyd â'n rhaglen addysg a dysgu, yn darparu llawer o gyfleoedd ar gyfer llwybrau i gyflogaeth i CNC a'r sector yn ehangach.

Mae ein rhaglen addysg a dysgu yn parhau i ehangu, gyda mwy o gyfleoedd hyfforddiant i addysgwyr/myfyrwyr yn gysylltiedig â gyrfaoedd penodol a phrofiadau cysylltiedig â gwaith. Mae ein partneriaeth â STEM UK yn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r sgiliau prin sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur, hinsawdd a llygredd.

**Lleoliadau**
Credwn fod lleoliadau yn rhoi cyfle i bobl ennill sgiliau gwerthfawr a rhannu profiad ac arbenigedd wrth hefyd wneud cyfraniad sylweddol i lwyddiant, cydraddoldeb ac amrywiaeth ein busnes. Mae'r dull a ddefnyddiwn i drin lleoliadau wedi'i nodi yn ein polisi a'n gweithdrefn ar gyfer lleoliadau. Dyma'r fframwaith ar gyfer recriwtio, cydgysylltu, cefnogi a gweithredu lleoliadau.

Ar hyn o bryd, mae 37 o bobl yn cymryd rhan mewn lleoliadau cyflogedig. Mae'r cyfleoedd hyn i gyd yn cael eu talu yn unol â'n hymrwymiadau fel cyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol.

Mae yna hefyd amrywiaeth o gyfleoedd di-dâl, gan gynnwys cynlluniau gwirfoddoli amrywiol, sy'n caniatáu i ni gynyddu a chadw sgiliau prin – er enghraifft, deifwyr gwirfoddol. Mae y rhain yn llwybrau pwysig i gynlluniau lleoliadau cyflogedig a chyflogaeth gyda'n sefydliad a'r sector amgylcheddol yn ehangach.

## 5. Rhaglen Adfywio

**Adeiladau**

Rydym wedi cyhoeddi ein strategaeth adeiladau, sy'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer yr adeiladau sydd ar gael i ni dros y saith i ddeng mlynedd nesaf. Ei nod yw sicrhau, o fewn y cyfyngiadau ariannol a gweinyddol a roddir ar Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, y bydd ein portffolio'n diwallu anghenion busnes ymatebwr Categori 1 wrth drawsnewid tuag at ddyfodol carbon sero net, gan gydnabod yr angen i fabwysiadu mesurau addasu i'r hinsawdd i ddiwallu anghenion yr argyfwng hinsawdd, ac i gyfrannu at ddatrys yr argyfwng natur trwy reolaeth briodol o'r cwrtil o amgylch ein hadeiladau. Rydym yn canolbwyntio ar leihau allyriadau, lleihau cost ein hystâd adeiledig, a gwella llesiant ein staff. Ategir hyn gan gynllun cyflenwi deinamig cysylltiedig sy'n nodi'n fras yr hyn y bwriadwn ei wneud, a phryd, gyda'n hadeiladau presennol.

Rydym wedi bod yn cynnal trafodaethau ag ystod o bartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector ynghylch rhannu lleoedd, ac yn ddiweddar rydym wedi rhannu lle gyda Chyngor Sir Powys yn hytrach nag agor swyddfa yn ne Powys.

Rydym wedi rhoi rhybudd ar ein swyddfeydd yn Nhŷ Cambria yng Nghaerdydd, ac yn symud i adain bwrpasol yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays. Mae'r prosiect hwn yn gwneud cynnydd da, a disgwylir i staff CNC gael mynediad i'r swyddfa newydd yn gynnar yn 2024. Bydd yr adleoliad hwn yn gwneud allyriadau ac arbedion effeithlonrwydd sylweddol i CNC a'r sector cyhoeddus yn ehangach. Rydym yn gobeithio gwireddu arbedion deng mlynedd o rhwng £3 a £4 miliwn a lleihau allyriadau gwresogi a goleuo 50% (o 250 t/CO*2e* i 125 t/CO*2e* yn seiliedig ar ffigurau sylfaenol 2019/20).

**Teithio**

Rydym wedi ymrwymo i drawsnewid ein fflyd cerbydau nwyddau ysgafn i fod yn fflyd allyriadau isel iawn (trydan batri yn bennaf) erbyn 2030. Rydym hefyd yn gweithio i gynyddu effeithlonrwydd ein fflyd a chynyddu cyfraddau defnyddio. Erbyn diwedd 2023/24, bydd 10% o'n 550 o gerbydau ffordd yn rhai trydan batri. Rydym wedi cyflwyno polisi prynu cerbydau interim sy'n atal cyflwyno ceir neu faniau diesel newydd i'r fflyd oni bai fod achos busnes clir.

Mae cynllun pontio pum mlynedd i'r fflyd wedi'i ddrafftio i yrru'r newid o ddiesel i drydan batri yn y categori car a nwyddau ysgafn. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda defnyddwyr y fflyd i ddod o hyd i gerbydau trydan batri addas, ac mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn darparu cyngor technegol rhagorol i'r prosiect.

Er mwyn cefnogi'r broses o gyflwyno cerbydau trydan batri, rydym wedi cyflwyno 48 gwefrydd cerbydau trydan pellach yn swyddfeydd a depos CNC, ac mae bellach cyfanswm o 62 o bwyntiau gwefru. Rydym yn bwriadu caffael contract i gyflenwi seilwaith gwefru ar draws CNC yn 2024/25, cyn belled â bod y gyllideb ar gael.

Rydym wedi treialu sawl cerbyd trydan batri ar draws gwahanol rannau o'r busnes ac mewn gwahanol leoliadau daearyddol. Mae'r rhain yn cynnwys cerbydau pob tir, tryciau codi gyriant dwy olwyn, a nifer o wahanol faniau. Er mwyn datgarboneiddio rhannau eraill o'n fflyd a'n peiriannau, rydym wedi cyflwyno'r defnydd o olew llysiau wedi'i drin â dŵr fel mesur tymor byr ac interim. Mae hwn yn cael ei ddefnyddio yn ein peiriannau, ein generaduron cludadwy, a'n bowserau tanwydd. Unwaith y bydd dewisiadau amgen o ran cerbydau trydan batri ar gael, byddwn yn rhoi'r gorau i ddefnyddio olew llysiau wedi'i drin â dŵr.

**Y Camau Nesaf**
Byddwn yn cyhoeddi strategaeth fflyd a theithio yn 2024/25 a fydd yn amlinellu sut rydym yn bwriadu cyflymu'r broses o drosglwyddo i fflyd trydan batri a bydd hyn yn cynnwys treialu cerbydau trydan batri arbenigol.

Byddwn yn parhau i resymoli ein hystâd adeiledig, a fydd yn cynnwys datblygu cynllun cyflenwi ar gyfer datgarboneiddio gwres wrth weithio i ddeall yn well gwmpas ac effaith y mesurau lliniaru newid hinsawdd sydd eu hangen. Fodd bynnag, dylid nodi y disgwylir i gost y mesurau sydd eu hangen i ddatgarboneiddio adeiladau CNC ac i ymgorffori'r mesurau addasu angenrheidiol fod yn sylweddol ac mae cyflymder y gwaith hwn wedi'i gyfyngu gan yr adnoddau staffio sydd ar gael.

## 6. Ansawdd Dŵr

### Adolygiad Prisiau 2024 (PR24)

Cyflwynodd cwmnïau dŵr Cymru eu cynlluniau busnes PR24 i Ofwat ar 2 Hydref 2023. Mae Ofwat bellach yn adolygu'r rhain, a bydd yn cyhoeddi penderfyniadau drafft ym mis Mai 2024 cyn y penderfyniadau terfynol ym mis Rhagfyr 2024. Bydd y cynllun busnes y cytunwyd arno a'r cyllid cysylltiedig wedyn yn cael eu cyflenwi rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2030 yn ystod Cyfnod 8 y Rhaglen Rheoli Asedau (AMP8).

Rydym yn croesawu cyflwyno'r cynlluniau busnes hyn gan eu bod yn benllanw blynyddoedd o waith rhwng y cwmnïau dŵr a'r rheoleiddwyr, ac yn nodi rhaglen fuddsoddi sylweddol y mae mawr ei hangen ledled Cymru yn yr amgylchedd dŵr. Bydd y buddsoddiad yn atal y risgiau a'r pwysau y mae gweithrediadau cwmnïau dŵr yn eu rhoi ar yr amgylchedd, ac yn gwella perfformiad amgylcheddol y cwmnïau dŵr.

Ofwat fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol, yn unol â chanllawiau gan Weinidogion Cymru. Ein disgwyliad yw y bydd rhaglen fuddsoddi AMP8 yn cefnogi gwelliannau amgylcheddol cynaliadwy er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

**Tasglu Ansawdd Dŵr Gwell**

Mae'r tasglu'n parhau i lywio'r gwaith o gyflenwi'r cynllun gweithredu ar gyfer gorlifoedd storm, ac ym mis Awst cyhoeddwyd ein hadroddiad gorlifoedd storm cyntaf i randdeiliaid yn unol â'n hymrwymiadau yn y cynllun hwnnw. Rydym yn gweithio gyda Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy ar welliannau i'r data a'r metrigau ar gyfer adroddiad 2024.

Ym mis Hydref, cyhoeddwyd canllawiau gennym ar gyfer dosbarthu gorlifoedd storm yn ogystal â chanllawiau proses ar gyfer trwyddedu gorlifoedd heb drwydded. Mae'r canllawiau hyn yn gosod diffiniadau clir o ran o dan ba amodau y caniateir gorlif storm i orlifo o fewn ei drwydded amgylcheddol, ac maent yn cynnwys diffiniadau o'r hyn sy'n gyfystyr â 'gollyngiad diwrnod sych' a'r cyfanswm glawiad gofynnol i gyfiawnhau gorlif yn ystod 'glawiad trwm' yn ôl y diffiniadau a osodwyd gan y Swyddfa Dywydd. Mae hefyd yn gosod y gofyniad ar gyfer sgrinio asedau ysbeidiol.

Rydym hefyd yn gweithio i sicrhau bod ein data ar gael yn haws i eraill. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn gwella sut rydym yn rheoli, prosesu a rheoleiddio'r defnydd o ddata cwmnïau dŵr at ddibenion cydymffurfio. Bydd hyn yn ein galluogi ni, fel y rheoleiddiwr, i nodi'n well lle y gallai asedau fod yn achosi niwed amgylcheddol a sicrhau bod cwmnïau dŵr yn canolbwyntio'n well ar eu gwaith cynnal a chadw a'u buddsoddiadau cyfalaf.

**Diweddariad ar Afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)**
O'r wyth ymrwymiad a ddyrannwyd i CNC yng nghynllun gweithredu'r Prif Weinidog, rydym wedi cwblhau pump, sy'n cynnwys rhannu'r Ddewislen o Fesurau Lliniaru, Pecyn Tystiolaeth y Bwrdd Rheoli Maethynnau a'r Polisi Gwlyptir a Adeiladwyd, yn ogystal ag ymgymryd ag adolygiad o drwyddedau. Fel rhan o'r olaf, rydym wedi amrywio 31 o'r 171 o drwyddedau gwaith trin dŵr gwastraff sydd gan Dŵr Cymru hyd yma, ac wedi diweddaru ein cyngor cynllunio i awdurdodau cynllunio lleol. Mae rhai trwyddedau allweddol wedi'u rhoi i ganiatáu i'r awdurdod cynllunio lleol ddechrau gwneud penderfyniadau – er enghraifft, yn y gwaith trin dŵr gwastraff ym Mhum Rhyd a'r un yng Ngresffordd yn nalgylch Afon Dyfrdwy. Rydym hefyd wedi cynnal cyfres o ddigwyddiadau hyfforddi gydag awdurdodau cynllunio lleol a chyda staff mewnol, gan amlinellu newidiadau i gyngor ac ystyriaeth yn y broses benderfynu ar gyfer cynllunio a thrwyddedu.

Bu oedi sylweddol wrth gyhoeddi amrywiadau ar drwyddedau oherwydd bod Dŵr Cymru wedi herio ein dull o gymhwyso'r terfynau ffosffad ac amonia yn benodol. Bu oedi hefyd wrth roi trwyddedau oherwydd diffyg data monitro a chytuno ar yr amserlenni gofynnol ar gyfer cyflawni gwelliannau. Bydd unrhyw apeliadau ychwanegol gan y cwmnïau dŵr yn golygu na fydd awdurdodau cynllunio lleol yn gallu gwneud penderfyniadau cynllunio oherwydd dim ond pan fydd yr apêl wedi'i chwblhau y gall awdurdodau cynllunio lleol fwrw ati.

**Prosiect Arddangos Afon Teifi**
Bydd y prosiect hwn yn cynnwys amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys sectorau rheoli tir a dŵr, awdurdodau lleol, a’r byd academaidd, i dynnu sylw at ddulliau cydweithredol o wella ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr – gan adeiladu gwytnwch cynefinoedd afonol trwy reoli tir a dŵr yn gynaliadwy. Byddwn yn mabwysiadu dulliau ystwyth ac arloesol a bydd y dysgu a ddatblygir yn cael ei ddatblygu ar raddfa fwy a'i ehangu ledled Cymru, gan ddod â manteision lluosog i systemau afonydd eraill. Mae’n gyfle gwych i ddangos sut y gall ymyriadau cydweithredol wrthdroi’r tueddiadau negyddol yr ydym yn eu gweld, gan wella ansawdd dŵr, ecoleg a chynefin, a chefnogi gwytnwch cymunedau lleol a’r buddion a ddaw o’n hamgylchedd naturiol.

Mae rheolwr prosiect wedi'i benodi i ddatblygu'r gwaith gyda phartneriaid dros y chwe mis nesaf, a bydd dadansoddwr tystiolaeth yn dechrau ar ddiwedd mis Ionawr. Cynhaliwyd cyfarfod lansio cychwynnol gydag uwch-gynrychiolwyr o’r sefydliadau rhanddeiliaid allweddol yn Llanbedr Pont Steffan ar 24 Tachwedd, a darparwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect newydd hwn yn nhrydedd Uwchgynhadledd Llygredd Afonydd y Prif Weinidog ar 30 Tachwedd yng Nghaerdydd. Cynhelir cynhadledd ym mis Chwefror, gan ddefnyddio dull “hacathon” i archwilio cyfleoedd cydweithredol a syniadau arloesol ymhellach gyda grŵp ehangach o randdeiliaid/dinasyddion.

**Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021**
Hyd yn hyn, rydym wedi recriwtio i 19 o’r 22 rôl yn y Tîm Rheoleiddio Amaethyddiaeth newydd i Gymru gyfan, a fydd yn rhoi cyngor i ffermwyr ledled Cymru ar gydymffurfio â Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Bydd hyn yn cynnwys cymryd camau gorfodi pan fo angen.

## 7. Llifogydd

**Nodyn Cyngor Technegol 15 (TAN15)**
Rydym yn awyddus i gefnogi datblygu cynaliadwy ledled Cymru ac yn cydnabod ei bwysigrwydd wrth sicrhau y gall ein cymunedau barhau i fod yn fywiog ac yn hyfyw. Fodd bynnag, credwn fod drafft diweddaraf TAN15 yn gam yn ôl o’r cyfeiriad polisi clir a chadarnhaol a nodir yn nrafft 2021, ac yn gwaethygu’r sefyllfa a ddarperir gan y nodyn cyngor technegol presennol (2004).

Rydym wedi ysgrifennu’n ddiweddar at y Gweinidog Newid Hinsawdd yn awgrymu y dylem, gyda’n gilydd, ddod o hyd i ffyrdd o gefnogi adfywio mewn ffordd gynaliadwy, a nodi ffyrdd o wneud cymunedau presennol a datblygiadau newydd yn fwy gwydn i berygl llifogydd ac o wella eu gallu i adfer yn gyflym ar ôl llifogydd. Dylid hefyd cynnal llwybrau addas ar gyfer dod i mewn a mynd allan mewn achosion o leoli a gwacáu mewn argyfwng, ac ni ddylai datblygiadau newydd fod yn agored i risg annerbyniol, gan leihau datblygiadau newydd sy’n agored iawn i niwed mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd sylweddol cymaint â phosibl er mwyn diogelu ein cenedlaethau yn y dyfodol.

Dylai mesurau diogelu priodol fod ar waith hefyd lle mae datblygiad yn gorwedd y tu ôl i amddiffynfa, ac ni ddylem geisio amddiffyn ardaloedd sydd heb eu datblygu er mwyn galluogi datblygiad yn unig pan fydd angen yr ardaloedd hyn efallai i wneud lle i ddŵr, yn enwedig gydag effeithiau cynyddol newid hinsawdd.

## 8. Natur a Ni

Yn gynharach eleni, cyhoeddwyd **Gweledigaeth Natur a Ni**. Wedi'i chreu gan bobl Cymru, mae'n gosod her ysbrydoledig i'r llywodraeth, cyrff cyhoeddus a'r trydydd sector i weithio gyda'i gilydd, **a chyda dinasyddion**, i ddod o hyd i atebion i'r argyfyngau natur a hinsawdd, a'r heriau i'r gwasanaethau y mae ein dinasyddion yn dibynnu arnynt. Yn fyr, mae'r weledigaeth yn galw am 2050 lle mae cymdeithas a natur yn ffynnu gyda'i gilydd a lle gall pobl ymwneud yn fwy â phenderfyniadau sy'n effeithio ar natur.

Ar yr adeg hon, yn fwy nag erioed, mae angen i ni weithio gyda'n gilydd fel gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru er mwyn inni allu cyd-ddatblygu atebion mwy cynhwysol ac integredig i fynd i'r afael â'r heriau llym hyn, ac rydym yn defnyddio'r weledigaeth hon fel arwydd o obaith ar gyfer y dyfodol. Fel ymrwymiad i bobl Cymru sy'n ymwneud â datblygu'r weledigaeth, byddwn yn defnyddio ein prosesau adrodd i ddangos y camau rydym wedi'u cymryd tuag ati, gan gynnwys lle rydym yn cyflawni mewn partneriaeth ag eraill. Byddwn yn glir ynghylch yr effeithiau y mae ein gweithredoedd ar y cyd yn eu cael ar bobl ac ar natur, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.

Wrth ystyried y penderfynyddion ehangach hynny, byddwn yn parhau i weithio drwy nifer o fecanweithiau pwysig ar gyfer cydweithio â gwasanaethau cyhoeddus – yn fwyaf arwyddocaol, fel aelodau o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio'r mecanweithiau statudol hyn ar gyfer cydweithredu arloesol parhaus ar draws gwasanaethau cyhoeddus ac integreiddio canlyniadau ein gwaith.

## 9. Recriwtio i'r Bwrdd

Ar gais Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, mae cyfnod Syr David Henshaw fel cadeirydd CNC wedi'i ymestyn i fis Hydref 2025. Mae un swydd wag gan y Bwrdd ar hyn o bryd, a bydd yn recriwtio i'r swydd hon fel rhan o'r ymgyrch ehangach i benodi i'r ddwy rôl arall y mae eu deiliadaeth yn dod i ben ym mis Hydref 2024. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar hyn, ac yn disgwyl i'r ymgyrch recriwtio ddechrau yn gynnar yng ngwanwyn 2024.

Rhagfyr 2023

**Cyfarfod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith – dydd Iau 18 Ionawr 2024.**

Craffu blynyddol ar waith Cyfoeth Naturiol Cymru:

- Cyfoeth Naturiol Cymru: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Julie James AS,
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

24 Tachwedd 2023

Annwyl Julie,

Llythyr dilynol ar ôl y sesiwn graffu gyffredinol ar y Gweinidog ar 26 Hydref 2023

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 26 Hydref i roi tystiolaeth mewn cysylltiad â meysydd polisi yn eich portffolio. Yn dilyn y cyfarfod, cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch i ofyn am eglurhad a rhagor o wybodaeth am faterion a godwyd yn ystod y sesiwn ac i ofyn i chi roi sylw i faterion eraill na chawsant sylw oherwydd cyfyngiadau amser.

Bil targedau llywodraethu amgylcheddol ac adfer natur

Yn niweddariad Llywodraeth Cymru a gyhoeddir ddwywaith y flwyddyn ar weithredu argymhellion sy'n codi o'r Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth, nodwyd bwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Papur Gwyn ar gyfer bil targedau llywodraethu amgylcheddol ac adfer natur yn ystod 2023. Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, gwnaethoch ddweud wrthym, erbyn hyn, y disgwylir y Papur Gwyn ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor yn awyddus i waith ar y Bil gael ei wneud yn gyflym fel bod corff llywodraethu amgylcheddol newydd Cymru yn cael ei sefydlu, yn ogystal â bod yn gwbl weithredol, cyn diwedd y Chweched Senedd. Rydym felly yn eich annog i sicrhau nad yw'r Papur Gwyn yn destun rhagor o oedi.

Yn ystod eich ymddangosiad gerbron y Pwyllgor, gwnaethoch ddweud wrthym y bydd y fframwaith deddfwriaethol arfaethedig ar gyfer gosod targedau adfer natur yn debyg iawn i'r un ar gyfer targedau ansawdd aer y darperir ar ei gyfer yn y Bil Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau)

(Cymru) (y Bil). Gwyddoch, yn ein hadroddiad Cyfnod 1 ar y Bil, ein bod wedi mynegi pryderon ynghylch y fframwaith gosod targedau. Yn benodol:

- darparu pŵer dewisol i alluogi Gweinidogion Cymru i osod targedau ansawdd aer, yn hytrach na gofyniad ar Weinidogion Cymru i osod targedau ar gyfer llygryddion hysbys;
- diffyg amserlenni statudol ar gyfer gosod targedau;
- diffyg darpariaeth i Weinidogion Cymru osod targedau interim ar drywydd tuag at dargedau tymor hir.

1. Rydym yn disgwyl i chi fyfyrio ar yr uchod wrth gwblhau cynigion y Papur Gwyn ar gyfer y fframwaith gosod targedau adfer natur.

Gweithredu Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

*Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol*

Cyhoeddwyd y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol cyntaf, sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ('Deddf 2016'), yn 2017. Mae Deddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol "ar ôl pob etholiad cyffredinol" a chyhoeddi Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol diwygiedig os oes angen. Pan ofynnwyd i chi esbonio pam nad ydych wedi adolygu'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol eto, gwnaethoch ddweud wrthym fod cyfres o ymarferion a chamau wedi'u cymryd i ddechrau llywio adolygiad, gan nodi'r Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth a'r Archwiliad Dwfn i Goed a Phren fel enghreifftiau. Gwnaethoch ychwanegu bod yn rhaid i'r adolygiad fod ym mhob tymor Senedd mewn gwirionedd. Mae'n bwysig iawn cael yr adolygiad yn iawn, yn hytrach na'i wneud yn gyflym, ond bydd adolygiad yn sicr cyn diwedd tymor y Senedd, fel sy'n ofynnol gan y gyfraith.

Diben y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol yw nodi blaenoriaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. O ystyried hyn, byddem yn disgwyl i'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol gael ei adolygu tua dechrau tymor Llywodraeth Cymru yn hytrach na'r diwedd.

2. A allwch chi roi amseroedd manylach ar gyfer cwblhau'r adolygiad ac ar gyfer cyhoeddi Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol diwygiedig?

*Rhestrau bioamrywiaeth*

Mae Deddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i gyhoeddi rhestr o rywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwysigrwydd pennaf ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gymryd "pob cam rhesymol" er mwyn cynnal a gwella'r rhywogaethau a'r cynefinoedd ar y rhestr honno ac annog eraill i wneud hynny.

Cafodd y rhestr ei throsi'n wreiddiol o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 ac nid yw wedi'i diweddaru ers i Ddeddf 2016 ddod i rym.

3. Pa waith sydd wedi'i wneud hyd yn hyn i adolygu'r rhestrau rhywogaethau a chynefinoedd gyda'r bwriad o'u diweddaru?

4. Pa amserlenni ydych yn gweithio tuag atynt ar gyfer cyhoeddi'r rhestrau wedi'u diweddaru?

Datgarboneiddio'r sector tai preifat

*Gwella safonau effeithlonrwydd ynni*

Yn ein hadroddiad, sef *Datgarboneiddio'r sector tai preifat* (Chwefror 2023), rydym yn cydnabod rôl Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni mwy llym wrth gyflymu'r broses o ôl-osod yn y sector rhentu preifat. Felly, rydym yn rhannu eich rhwystredigaeth bod Llywodraeth y DU wedi dewis dileu'r gofyniad i'r sector rhentu preifat gael sgôr C EPC ar gyfer pob tenantiaeth newydd erbyn 2025, ac ar gyfer pob tenantiaeth erbyn 2028. Rydym yn pryderu am effaith hyn ar gyflawni ymrwymiadau sero net Cymru ac ymdrechion i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

5. Ers cyhoeddiad Llywodraeth y DU, pa drafodaethau ydych wedi'u cael â chynrychiolwyr y sector rhentu preifat am opsiynau amgen i gynyddu safonau effeithlonrwydd ynni ar draws y sector y tu allan i'r Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni?

6. Pa ystyriaeth ydych wedi'i rhoi i gyflwyno safonau effeithlonrwydd ynni mwy llym fel amod o gofrestru a thrwyddedu landlordiaid Cymru?

Wrth roi tystiolaeth, gwnaethoch gyfeiro at nifer o bolisïau a chynigion a oedd yn cael eu gweithredu i annog y sector rhentu preifat i wella safonau effeithlonrwydd ynni, er enghraifft, Cynllun Lesio Cymru. Rydym yn deall, ar hyn o bryd, fod 15 o 22 awdurdod lleol wedi cofrestru ar gyfer Cynllun Lesio Cymru. Pan ofynnwyd i chi am nifer y landlordiaid sy'n ymgysylltu â Chynllun Lesio Cymru, gwnaethoch ddweud ei bod yn y cannoedd, yn hytrach na'r miloedd.

7. Pa gamau ydych wedi'u cymryd, neu ydych yn bwriadu eu cymryd, i annog y saith awdurdod lleol sy'n weddill i ymgysylltu â'r Chynllun Lesio Cymru?

8. A allwch roi niferoedd manylach am y landlordiaid sy'n ymgysylltu â Chynllun Lesio Cymru, wedi'u dadansoddi yn ôl ardal awdurdod lleol?

*Cyllid Cysylltiedig ag Eiddo*

Wrth roi tystiolaeth i ni, gwnaethoch esbonio bod gwaith ar opsiynau ariannol i'r sector perchen-feddianwyr dalu cost ôl-osod ymlaen llaw yn parhau.

9. A allwch roi diweddariad am waith tuag at ddatblygu cynigion ar gyfer Cyllid Cysylltiedig ag Eiddo?

*Cynllunio a Hawliau Datblygu a Ganiateir*

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, gwnaethom ofyn i chi egluro'r amserlenni rydych yn gweithio tuag atynt ar gyfer adolygu hawliau datblygu a ganiateir gyda'r bwriad o lacio'r gofyniad na chaniateir gosod unrhyw ran o bwmp gwres ffynhonnell aer o fewn 3 metr i ffin eiddo. Gwnaethoch ddweud wrthym eich bod yn cynnal ymchwil i ddeall yn well effeithiau sŵn lleihau'r gofyniad 3 metr.

Wrth ymateb i'n hadroddiad, sef *Datgarboneiddio'r sector tai preifat*, gwnaethoch ddweud y bydd canfyddiadau eich ymchwil "yn cyfrannu at astudiaeth ehangach o'r sŵn a gaiff ei greu gan bympiau gwres ffynhonnell aer a gynhelir gan Lywodraeth y DU. Defnyddir casgliadau'r gwaith hwn pan gaiff adolygiad cynhwysfawr o'r hawliau datblygu a ganiateir ei gynnal".

Rydym yn deall y disgwyliwyd i astudiaeth Llywodraeth y DU gael ei chwblhau yn haf 2023. Fodd bynnag, mae canfyddiadau'r astudiaeth wedi'u cyhoeddi.

10. Pryd fydd canfyddiadau ymchwil Llywodraeth Cymru i'r sŵn a gaiff ei greu gan bympiau gwres ffynhonnell aer a hawliau datblygu a ganiateir yn cael eu cyhoeddi?

11. A allwch nodi eich dealltwriaeth chi o'r amserlenni y mae Llywodraeth y DU yn gweithio tuag atynt ar gyfer cwblhau ei hastudiaeth ehangach o'r sŵn sy'n cael ei greu gan bympiau gwres ffynhonnell aer?

12. Pa amserlenni ydych yn gweithio tuag atynt ar gyfer cwblhau'r adolygiad cynhwysfawr o hawliau datblygu a ganiateir?

Ers cyhoeddi ein hadroddiad, mae Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd wedi argymell eich bod yn cynnal **adolygiad brys** [pwyslais wedi'i ychwanegu] o bolisïau cynllunio (gan gynnwys manylion hawliau datblygu a ganiateir) a all gyfyngu ar waith i osod pympiau gwres carbon isel a mesurau effeithlonrwydd ynni, a diwygio rheoliadau pan fo hynny'n briodol.

13. Pa ystyriaeth ydych wedi'i rhoi i gynnal adolygiad o'r fath?

*Allyriadau nwyon tŷ gwydr preswyl*

14. A allwch egluro a yw amcangyfrifon allyriadau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd er mwyn llywio ei Adroddiad Cynnydd diweddaraf yn ystyried y defnydd trydan preswyl? Os nad yw, pam lai?

Yr economi gylchol

*Cynllun Dychwelyd Ernes (DRS)*

Mae bron pum mlynedd erbyn hyn ers i Lywodraeth Cymru ymgynghori ar y cyd â DEFRA ac Adran Amgylchedd Gogledd Iwerddon ar gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes. Mae'r cynnydd tuag at

ddatblygu Cynllun Dychwelyd Ernes ers hynny wedi bod yn araf. Ddechrau'r flwyddyn, gwnaethoch ddweud wrthym y byddai'r Cynllun Dychwelyd Ernes ar waith ym mis Hydref 2025. Rydym yn siomedig o glywed y gallai'r cynllun bellach fod yn destun rhagor o oedi o ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth y DU i wahardd gwydr o gwmpas y cynllun yn Lloegr, yn groes i'r cynnig cychwynnol.

Yn eich tystiolaeth, gwnaethoch ddweud eich bod yn parhau i gyfarfod ar lefel swyddogol bron bob dydd â chymheiriaid yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i drafod y cynllun.

15. Hoffem i chi roi diweddariad am y cynnydd tuag at ddod i benderfyniad ar gwmpas y Cynllun Dychwelyd Ernes cyn diwedd tymor y gwanwyn yn 2024.

16. Os na ellir dod i gytundeb i gynnwys gwydr yng nghwmpas y cynllun, beth yw eich camau nesaf mewn perthynas â'r Cynllun Dychwelyd Ernes yng Nghymru?

*Ailgylchu statudol*

Ar hyn o bryd, targed gofynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer ailgylchu gwastraff yw 70 y cant erbyn 2025 ar gyfer gwastraff cartrefi a busnesau masnachol a diwydiannol. Mae adroddiad Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd, sef Adroddiad Cynnydd: Lleihau allyriadau yng Nghymru (Mehefin 2023), yn nodi bod cyfraddau ailgylchu yng Nghymru yn parhau i fod yn uwch na gweddill y DU, ond bod "gwelliannau wedi arafu yn y blynyddoedd diwethaf". Mae Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd yn galw ar Lywodraeth Cymru i "[]osod targedau ailgylchu uchelgeisiol ar gyfer 2030 a thu hwnt, gan wella ar y targed o 70% ar gyfer 2025.

17. Pa waith ydych wedi'i wneud hyd yn hyn ar ddatblygu targedau ailgylchu ar gyfer 2030 a'r tu hwnt? Pa amserlenni ydych yn gweithio tuag atynt ar gyfer gosod targedau o'r fath?

## Ansawdd dŵr

*Gorlifoedd storm*

Rydym yn croesawu cyhoeddiad diweddar Adroddiad Tystiolaeth Cymru ar Orlifoedd Storm, yn unol â'r ymrwymiad a roddwyd yn Rheoleiddio amgylcheddol ar gyfer gorlifoedd storm: cynllun gweithredu ('y cynllun gweithredu'). Yn ôl y cynllun gweithredu, y bwriad yw i'r Adroddiad lywio gwaith y Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd ('y Tasglu') wrth ddatblygu targedau tymor byr, canolig a hir ar gyfer atal niwed ecolegol dyfrffyrdd Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun gweithredu yn rhoi arwydd o'r amserlenni y mae'r Tasglu'n gweithio tuag atynt ar gyfer datblygu targedau.

18. O ystyried bod Llywodraeth Cymru yn aelod o'r Tasglu, a allwch egluro'r amserlen y mae'r Tasglu'n gweithio tuag ati ar gyfer datblygu targedau i atal niwed ecolegol yn nyfffyrdd Cymru?

*Rheoli llygredd amaethyddol*

Nod Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 ('Rheoliadau 2021') yw mynd i'r afael ag achosion llygredd dŵr sy'n deillio o amaethyddiaeth.  Mae Rheoliadau 2021 yn cynnwys terfyn blynyddol fesul daliad nitrogen 170kg/ha, a oedd i'w weithredu ar 1 Ionawr 2023 yn wreiddiol. Cytunodd Llywodraeth Cymru, drwy ei Chytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru, i ohirio gweithredu'r terfyn 170kg/ha hyd at fis Ebrill 2023. Cytunodd hefyd i ymgynghori ar gynllun trwyddedu sy'n caniatáu i ffermydd cymwys gymhwyso'r terfyn uwch 250kg/ha.

Rydym yn ymwybodol o gyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru i gyflwyno Dull Rheoli Maethynnau Uwch, yn hytrach na'r cynllun trwyddedu. O dan y dull hwn, mae'n rhaid i fusnesau fferm hysbysu CNC pan fo cynlluniau rheoli maethynnau 2024 yn dangos ei bod  yn debygol y bydd mwy na'r gyfradd flynyddol, sef 170kg/ha nitrogen, o dail da byw. At hynny, mae'n rhaid iddynt gymryd camau gweithredu sy'n gyson ag amodau'r drwydded arfaethedig yr ymgynghorir arni.

19. Pa waith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i asesu a fydd y Dull Rheoli Maethynnau Uwch arfaethedig yn effeithio ar effeithiolrwydd Rheoliadau 2021, neu sut y bydd hynny'n digwydd, wrth fynd ymdrin ag achosion llygredd dŵr ac aer o weithgareddau amaethyddol?

Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Rydym yn cydnabod rôl hanfodol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy wrth gefnogi gwaith i gyflawni ymrwymiadau newid hinsawdd Cymru a gwrthdroi dirywiad natur.

Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2023, dywedodd yr Arglwydd Deben, Cadeirydd Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd ar y pryd, fod Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd wedi bod yn barod i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ac yn aros i wneud hynny, ond nad oedd wedi bod yn rhan ohono hyd yn hyn.

20. A allwch egluro a yw Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â Phwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd wrth ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig a sut y mae wedi gwneud hynny? Os na fu ymgysylltiad, esboniwch pam.

Cyn cwblhau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ystyried a allai ddefnyddio arbenigedd Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd orau, a sut y gallai wneud hynny, i sicrhau y gall y cynllun sbarduno gostyngiad dwfn mewn allyriadau yn y sector amaethyddiaeth a chynyddu maint y ddalfa garbon.

Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023

21. A allwch roi diweddariad am y trafodaethau rhynglywodraethol ar drefniadau disodli posibl ar gyfer Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol 2018 (Rheoliadau 2018)?

22.  Os nad yw'r trefniadau disodli y cyfeirir atynt uchod yn dod i'r amlwg, a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio ei phwerau o dan Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir 2023 i efelychu'r

dyletswyddau a osodir ar yr Ysgrifennydd Gwladol gan Reoliadau 2018 (i lunio cynllun llygredd aer cenedlaethol ar gyfer y pum llygrydd aer ac ymgynghori â'r cyhoedd wrth wneud hynny) fel eu bod yn gymwys i Weinidogion Cymru o ddiwedd 2023 pan ddaw Rheoliadau 2018 i ben?

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb erbyn dydd Gwener 22 Rhagfyr 2023 fan bellaf.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: JJ/PO/441/2023

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

18 Rhagfyr 2023

Annwyl Llŷr,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 24 Tachwedd a anfonwyd ar ôl imi fod yn y sesiwn graffu Gweinidogol a gynhaliwyd gan y Pwyllgor ar 26 Hydref.

Rwyf wedi darparu rhagor o wybodaeth isod mewn ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor:

***Pwerau fframwaith i osod targedau, a gwersi i'w dysgu ar gyfer y Bil arfaethedig o ran darparu ar gyfer targedau bioamrywiaeth***

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei waith ar Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) ac am yr holi a'r trafod a ddylanwadodd ar y darpariaethau terfynol ar osod targedau. Rwyf wedi gofyn i swyddogion sy'n gweithio ar y targedau bioamrywiaeth ystyried yr hyn a ddysgwyd wrth fynd ati i ddatblygu'r fframwaith ar gyfer y targedau Ansawdd Aer. Er hynny, mae angen o hyd i dargedau gael eu datblygu ar sail tystiolaeth a rhaid iddynt weithio i sbarduno gweithredu ystyrlon.

***Adolygu a chyhoeddi Polisi diwygiedig ar Adnoddau Naturiol Cenedlaethol***

Bydd gweithgor yn dechrau gweithio ym mis Ionawr i edrych ar hynt y gwaith hyd yma ac i gynnal adolygiad o'r polisi. Disgwylir i'r gwaith ar yr adolygiad gael ei gwblhau ym mis Hydref 2024. Bydd polisi diwygiedig yn cael ei gyhoeddi wedyn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

***Adolygiad o'r rhestrau rhywogaethau a chynefinoedd a phryd y bwriedir cyhoeddi'r rhestrau diwygiedig***

Cafodd y rhestr Adran 42 ei throsi gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) yn rhestr interim Adran 7. Er na phennwyd amserlen yn y Ddeddf ar gyfer cyhoeddi'r rhestr ar ôl iddi gael ei diweddaru, mae'r dasg honno wedi bod yn un gymhleth ac wedi cymryd llawer o amser.

Mae Cam 1, a arweiniwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), wedi'i gwblhau. Aseswyd dros 2900 o rywogaethau gan arbenigwyr CNC, gan arwain at gynnig i gynnwys mwy na 1100 yn y rhestr Cam 1. Yn ogystal, aeth CNC ati hefyd i drafod ag aelodau o Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL) a sefydliadau technegol allweddol eraill sy'n arbenigwyr ar rywogaethau a chynefinoedd, gan wneud hynny mewn cyfres o rith-weithdai a gafodd eu hwyluso'n annibynnol. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r arbenigwyr a'r sefydliadau am y cymorth y maent wedi'i roi.

Erbyn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi bwrw golwg dros y rhestrau Cam 1 a'r taenlenni cysylltiedig. Gofynnwyd  nifer o gwestiynau a chafwyd ceisiadau am ragor o wybodaeth yn sgil y broses honno, yn enwedig o ran rhywogaethau morol masnachol a materion a oedd yn gysylltiedig â diffinio rhai o'r cynefinoedd mosaig arfaethedig. Mae CNC wrthi ar hyn o bryd yn gweithio ar yr ymatebion sydd eu hangen cyn i'r rhestrau fedru symud ymlaen i Gam 2, pan fydd angen i Lywodraeth Cymru gytuno'n ffurfiol arnynt a'u cyhoeddi. Bydd Cam 2 hefyd yn cynnwys canllawiau i ddefnyddwyr ar ddehongli a gweithredu, a'n nod yw cyhoeddi'r rhestr adran 7 ddiwygiedig yng ngwanwyn 2024, ac yna cyhoeddi rhagor o ganllawiau ar ddehongli a gweithredu ar ôl hynny.

***Trafodaethau gyda chynrychiolwyr y Sector Rhentu Preifat i drafod opsiynau amgen ar gyfer cynyddu safonau effeithlonrwydd ynni ar draws y sector***

Nid ydym wedi cynnal unrhyw drafodaethau uniongyrchol eto am y mater hwn gyda'r sector rhentu preifat. Fodd bynnag, roedd y Galwad am Dystiolaeth yn y Papur Gwyrdd yn ceisio barn ynghylch a allai fod yn briodol cysylltu sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) eiddo â'r rhent y gellid ei godi, er mwyn annog buddsoddiad i wella'r sgôr EPC.

Mae swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn dadansoddi'r ymatebion i'r Papur Gwyrdd, a bydd y dystiolaeth honno'n llywio'r gwaith o ddatblygu'r Papur Gwyn.

***Ystyried cyflwyno safonau effeithlonrwydd ynni llymach yn un o'r amodau ar gyfer cofrestru a thrwyddedu landlordiaid Cymru***

Mae gan Lywodraeth Cymru reolaeth dros y Cod Ymarfer y mae'n rhaid i landlordiaid ac asiantiaid trwyddedig gydymffurfio ag ef. Dim ond adlewyrchu'r hyn sy'n gyfraith yng Nghymru ar hyn o bryd y caiff rhan orfodol y Cod Ymarfer hwnnw ei wneud. Fodd bynnag, mae ynni yn un o'r swyddogaethau sydd wedi'u cadw'n ôl gan Lywodraeth y DU, felly mater i Lywodraeth y DU yw unrhyw newidiadau i'r safonau EPC.

Heblaw am y Cod Ymarfer a bennir drwy Orchymyn gan y Senedd, mater i'r awdurdod trwyddedu, sef Rhentu Doeth Cymru, yw amodau'r trwyddedu. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi'r pŵer iddynt bennu amodau trwyddedu y teimlant eu bod yn briodol ar gyfer y drwydded. Pe bai Rhentu Doeth Cymru yn cynnig amod newydd, byddai angen i'r amod hwnnw fod yn gysylltiedig â'r arferion gosod a rheoli ar gyfer eiddo landlordiaid. Nid oes gan Rhentu Doeth Cymru eu hunain unrhyw awdurdodaeth dros unrhyw beth sy'n gysylltiedig ag adeiladwaith yr eiddo, felly nid yw newid sylfaenol i reolau sy'n gysylltiedig ag adeiladwaith eiddo yn rhan o'u cylch gwaith.

Rwyf wedi bod yn glir bob amser fy mod am weld eiddo sy’n fwy effeithlon o ran ynni ym mhob cwr o Gymru, ac rydym yn cyrraedd y nod hwnnw drwy ddefnyddio'r dulliau ysgogi sydd ar gael inni, yn enwedig drwy adeiladu o'r newydd ac ôl-osod mewn eiddo sydd eisoes yn bod. Yn anffodus, fe wnaeth Llywodraeth y DU roi'r gorau i'w bwriad i bennu sgôr EPC sylfaenol o "C" ar gyfer eiddo newydd ac eiddo sydd eisoes yn bod yng Nghymru a Lloegr. Byddai hynny, ynghyd â digon o arian i gefnogi'r cynlluniau ac i annog a helpu landlordiaid i fodloni'r safonau newydd, wedi bod o gymorth anfesuradwy i denantiaid yng Nghymru gydag effeithlonrwydd ynni a chostau cynyddol tanwydd. Byddai landlordiaid ar eu hennill hefyd oherwydd y byddai eu heiddo wedi cael ei uwchraddio ac yn haws i'w farchnata. Mae gan Lywodraeth y DU y pŵer i weithredu, ac mae angen iddi wneud hynny, er lles y landlordiaid a’r tenantiaid.

***Camau i annog y saith awdurdod lleol sy'n weddill i fabwysiadu Cynllun Lesio Cymru***

Y nod yw sicrhau bod Cynllun Lesio Cymru yn cael ei fabwysiadu ym mhob rhan o Gymru. Mae pecyn cyllid ar gael eisoes i helpu'r awdurdodau lleol i ddatblygu a rheoli'r cynllun. Rydym wedi bod wrthi ers i'r cynllun gael ei sefydlu yn trafod â'r uwch-reolwyr perthnasol yn yr awdurdodau lleol nad ydynt eisoes wedi ymuno â'r cynllun. O'r herwydd, mae 16 o'r awdurdodau lleol wedi mabwysiadu’r cynllun erbyn hyn ac mae awdurdod arall wedi gwneud cais i ymuno ag ef, gan roi cyfanswm o 17.

Cynhaliwyd trafodaethau a deialog yn ddiweddar gyda'r pum awdurdod lleol sy'n weddill er mwyn tynnu'u sylw at fanteision y cynllun, ac maen nhw wrthi bellach yn ailystyried.

***Nifer y landlordiaid sydd wedi mabwysiadu Cynllun Lesio Cymru, yn ôl ardaloedd yr awdurdodau lleol***

Mae'r awdurdodau lleol yn cysylltu ac yn trafod â landlordiaid a darpar landlordiaid mewn ystod eang o ffyrdd, megis drwy’r cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau, cyfarfodydd fforymau, a chyswllt cyffredinol o ddydd i ddydd. O’r herwydd, mae’n anodd mesur faint yn union ohonynt y cysylltwyd â nhw i drafod y Cynllun..

Mae'r wybodaeth isod yn nodi sawl eiddo sydd wedi mabwysiadu’r Cynllun. Efallai fod gan rai o'r landlordiaid fwy nag un eiddo, felly, bydd angen gwneud rhagor o ymchwil gyda'r awdurdodau lleol er mwyn gweld faint yn union o landlordiaid sydd wedi ymuno ag ef. Mae’r ffaith bod cyfraddau’r Lwfans Tai Lleol wedi’u rhewi dros y pedair blynedd diwethaf wedi bod yn rhwystr enfawr o ran annog landlordiaid i ymuno â’r cynllun. Fodd bynnag, bydd cyfraddau’r Lwfans Tai Lleol yn cael eu codi o fis Ebrill nesaf ymlaen, a bydd hynny'n helpu i wneud Cynllun Lesio Cymru yn fwy deniadol i'r landlordiaid hynny a allai fod wedi gwrthod ymuno â'r cynllun yn y gorffennol.

Mae'n ddyddiau cynnar o ran rhoi'r cynllun ar waith, ond dyma nifer yr eiddo sy'n rhan o'r cynllun ym mhob awdurdod lleol:

| | |
|---|---|
| Caerdydd | 62 |
| Rhondda Cynon Taf | 29 |
| Conwy | 29 |
| Gwynedd | 13 |
| Ceredigion | 13 |
| Ynys Môn | 7 |
| Sir Benfro | 9 |
| Wrecsam | 11 |
| Sir Ddinbych | 8 |

| | |
|---|---|
| Merthyr Tudful | 2 |
| Sir Gaerfyrddin | 3 |
| Casnewydd | 0 |
| Blaenau Gwent | 0 |
| Sir Fynwy | 0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 0 |
| Powys | 0 |
| **Cyfanswm** | **186** |

Mae 90 eiddo arall yn bwriadu ymuno â'r cynllun ac mae pob arwydd y byddant wedi gwneud hynny erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

***Y diweddaraf am y gwaith i ddatblygu cynigion ar gyfer Cyllid sy'n Gysylltiedig ag Eiddo***

Mae rhaglen waith ar y gweill sy'n canolbwyntio ar ystyried  atebion cyllido arloesol er mwyn datgarboneiddio cartrefi Cymru. Mae'r gwaith hwnnw'n cynnwys ymgymryd â phrosiectau profi a dysgu er mwyn helpu i fagu gwell dealltwriaeth o fodelau, profi eu bod yn hyfyw, mesur llwyddiant ac asesu a fyddai modd eu cyflwyno ar raddfa fwy yn ôl yr angen. 'Rwy'n gobeithio lansio'r prosiect profi a dysgu cyntaf, a fydd yn canolbwyntio ar berchen-feddianwyr sy'n gallu talu, ym mlwyddyn ariannol 2024/2025 (ar yr amod y cymeradwyir hynny yn y gyllideb).

Mae gwaith wedi dechrau i ddod â landlordiaid cymdeithasol, arbenigwyr sy'n gweithio yn y diwydiant cyllid a swyddogion Llywodraeth Cymru at ei gilydd  i edrych ar ffyrdd arloesol o gyllido gwaith datgarboneiddio. Cynhaliwyd dwy sesiwn a oedd yn canolbwyntio ar ystyried modelau cyllido posibl y mae landlordiaid cymdeithasol Cymru yn ymchwilio iddynt (sy'n canolbwyntio'n benodol ar fodelau cyllido arbed/rhannu sy'n gysylltiedig â microgynhyrchu) ac ar fodelau sy'n cael eu defnyddio gan awdurdodaethau eraill.

Mae swyddogion yn gweithio hefyd i gadw golwg ar ddatblygiadau ehangach, maent, er enghraifft, yn parhau i edrych ar ganlyniadau gwaith ehangach sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth y DU (megis y prosiectau peilot o dan y rhaglen sbarduno cyllid ar gyfer cartrefi gwyrdd, a gwaith ehangach megis y digwyddiad bord gron a gynhaliwyd gan Barclays yn ddiweddar, a'r gwaith sy'n cael ei arwain gan Trustmark).

Bydd gan yr hwb carbon sero-net, y bwriedir ei lansio ddechrau 2024, adran hefyd a fydd yn rhoi sylw penodol i gyllid er mwyn i aelodau fedru trafod opsiynau a chynigion yn y maes.

***Cyhoeddi canfyddiadau ymchwil Llywodraeth Cymru i sŵn sy'n cael ei greu gan bympiau gwres ffynhonnell aer ac i hawliau datblygu a ganiateir***

Bydd y canfyddiadau'n cael eu cyhoeddi cyn toriad y Nadolig.

***Dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o'r amserlenni y mae Llywodraeth y DU yn gweithio tuag atynt er mwyn cwblhau ei hastudiaeth ehangach o'r sŵn sy'n cael ei greu gan bympiau gwres ffynhonnell aer***

Cafodd 'Review of Air Source Heat Pump Noise Emissions, Permitted Development Guidance and Regulations' ei gyhoeddi gan yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net (DEZNEZ) ar 30 Tachwedd. Comisiynwyd yr adroddiad hwnnw er mwyn asesu a yw'r canllawiau a'r rheoliadau cynllunio cyfredol yn addas at y diben mewn perthynas â defnyddio Pympiau Gwres Ffynhonnell Aer ar raddfa fwy yn Lloegr ac os ydynt, ym mha ffyrdd y maent yn addas.

Ar yr un diwrnod, lansiodd y Cynllun Tystysgrifau Microgynhyrchu ei ymgynghoriad ar 'MCS 020 Planning Standard for Permitted Development Installations of Air Source Heat Pumps'. Mae'r ymgynghoriad hwnnw'n ymdrin â MCS 020 ac ymhlith y newidiadau arfaethedig y mae gwella'r diffiniad o rwystr solet, tybiaethau am lefelau sŵn cefndir, a diweddaru'r canllawiau ar leoliad. Diben y cynigion yw ei gwneud yn haws i osod pympiau gwres ffynhonnell aer ac i sicrhau eu bod ar gael i ragor o bobl. Mae adroddiad DEZNEZ ac ymgynghoriad y Cynllun Tystysgrifau Microgynhyrchu (MCS) yn bwysig o ran dylanwadu ar newidiadau i hawliau datblygu a ganiateir y DU ar gyfer pympiau gwres ffynhonnell aer, a byddant yn rhoi amcan i Lywodraeth Cymru o'r prif faterion y mae angen eu hystyried. Deellir y bydd yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yn cynnal ymgynghoriad ym mis Ionawr 2024 ar newidiadau i'r hawliau datblygu a ganiateir sy'n gysylltiedig â phympiau gwres ffynhonnell aer.

***Amserlenni ar gyfer cwblhau'r adolygiad cynhwysfawr o hawliau datblygu a ganiateir, a materion i'w hystyried yn yr adolygiad***

Fel y nodir yn y llythyr hwn, mae ystod o waith ar y gweill i helpu gydag adolygiad o hawliau datblygu a ganiateir yng Nghymru. Nid oes dyddiadau penodol wedi'u pennu ar hyn o bryd. Rhagwelir y bydd y broses ffurfiol o gynnal adolygiad yn dechrau yng ngwanwyn 2024.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgymryd ag ystod o waith sy'n edrych ar bympiau gwres ffynhonnell aer ac ar yr hawliau datblygu a ganiateir sy'n gysylltiedig â nhw. Y bwriad yw cynnal adolygiad o hawliau datblygu a ganiateir yn 2024.

Cafodd Cynllun Sŵn a Seinwedd Cymru 2023-2028 ei gyhoeddi ddechrau Rhagfyr 2023. Mae'r Cynllun hwnnw'n tynnu sylw at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi mynd ati yn 2022 i gomisiynu Sustainable Acoustics Ltd ac Apex Acoustics Ltd i adolygu'r holl dystiolaeth sydd ar gael am y mater hwn ac i roi cyngor arbenigol a fyddai'n llywio newidiadau posibl i hawliau datblygu a ganiateir yng Nghymru. Yn 2023, mae canfyddiadau'r adolygiad hwnnw wedi dechrau cael eu defnyddio i lywio darn ehangach o waith gan Lywodraeth y DU a fydd, gobeithio, yn arwain at welliannau i'r Cynllun Tystysgrifau Microgynhyrchu, sef y cynllun sicrhau ansawdd a arweinir gan y diwydiant sy'n sail i'r rheolau cynllunio ar gyfer pympiau gwres ffynhonnell aer yng Nghymru ac yn Lloegr.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu parodrwydd Sefydliad Elusennol y Cynllun Tystysgrifau Microgynhyrchu i weithio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gyflwyno gwelliannau cyflym i'r fethodoleg asesu ar gyfer safon MCS 020. Rydym yn rhagweld y bydd y gwelliannau hynny, unwaith y cânt eu cyflwyno, yn caniatáu inni ddiweddaru'r rheolau ar hawliau datblygu a ganiateir sy'n gysylltiedig â phympiau gwres ffynhonnell aer domestig yng Nghymru, gan wneud hynny mewn ffordd a fydd yn golygu na fydd risg annerbyniol i bobl mewn ardaloedd poblog orfod wynebu niwsans sŵn wrth i'r dechnoleg ddatgarboneiddio bwysig hon gael ei chyflwyno.

Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu gwelliannau i'r Cynllun Tystysgrifau Microgynhyrchu, sy'n sail i'r rheolau cynllunio ar gyfer pympiau gwres ffynhonnell aer. Ar ôl i'r Cynllun Tystysgrifau Microgynhyrchu gael ei adolygu a'i ddiweddaru, byddwn, inni fynd ati i adolygu a diweddaru'r rheolau ar hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer pympiau gwres ffynhonnell aer yng Nghymru, yn ystyried y dystiolaeth orau a fwyaf cyfredol fydd ar gael am y risgiau sŵn sy'n gysylltiedig â phympiau gwres.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi adroddiad dwy ran cyn y Nadolig a fydd yn ystyried y dystiolaeth ddiweddaraf am y sŵn sy'n cael ei greu gan bympiau gwres ffynheonnell aer. Mae'r adroddiad 'Air Source Heat Pump Noise & Permitted Development Rights in Wales' yn edrych ar yr effeithiau y mae sŵn a'r hawliau datblygu a ganiateir sydd ohoni yn eu cael o ran cyflwyno pympiau gwres ffynhonnell aer ledled Cymru, ac mae hefyd yn ystyried sut i oresgyn y rhwystrau.  Mae'n cloi drwy argymell y dylid symleiddio’r gofynion sy’n gysylltiedig â hawliau datblygu a ganiateir.

Bu Llywodraeth Cymru wrthi'n ddiweddar yn ymgynghori am ei Strategaeth Gwres i Gymru. Mae'r Strategaeth Gwres yn canolbwyntio ar sut y byddwn yn mynd ati i ddatgarboneiddio systemau gwresogi gofod a dŵr poeth ar gyfere adeiladau yng Nghymru, ac i ddatgarboneiddio gwres diwydiannol y mae mwy o ofyn amdano. Mae’n edrych hefyd ar sut y bydd ein rhwydweithiau ynni yn cael eu trawsnewid er mwyn cefnogi dyfodol carbon isel.  Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ynghylch a yw'r hawliau datblygu a ganiateir presennol sy'n gysylltiedig â phympiau gwres yn rhwystr rhag cyflwyno a gosod pympiau gwres.

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd a byddant yn llywio'n gwaith wrth inni fynd ati i ailedrych ar hawliau datblygu a ganiateir sy'n gysylltiedig â phympiau gwres ffynhonnell aer.

***Egluro a yw'r amcangyfrifon o allyriadau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i bwyllgor Newid Hinsawdd y DU i lywio'i Adroddiad Cynnydd diweddaraf yn ystyried defnydd preswyl o drydan***

Mae adroddiad cynnydd Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU yn defnyddio Rhestr Nwyon Tŷ Gwydr Cymru (GHGI), sy'n adrodd am allyriadau tiriogaethol Cymru yn unol â'r canllawiau adrodd rhyngwladol a bennwyd gan y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (IPCC).

Mae'r Rhestr Nwyon Tŷ Gwydr yn cyfrif  defnydd preswyl o drydan drwy'r gorsafoedd pŵer sy'n ei gynhyrchu, yn hytrach na'i ddyrannu i aelwydydd yn uniongyrchol. Bydd unrhyw allyriadau a gaiff eu creu gan drydan a gynhyrchir yng Nghymru yn cael eu hystyried yn allyriadau o Gymru yn y Rhestr Nwyon Tŷ Gwydr, ni waeth ymhle y bydd y trydan hwnnw'n cael ei ddefnyddio yn y pen draw. Yn yr un modd, os bydd trydan yn cael ei gynhyrchu y tu allan i Gymru a'i fewnforio i'w ddefnyddio yng nghartrefi Cymru, ni fydd yr allyriadau hynny'n cael eu hystyried yn allyriadau o Gymru. Byddant, yn hytrach, yn cael eu cyfrif yn y wlad lle mae'r orsaf bŵer honno.

Er bod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i amcangyfrif allyriadau defnydd hefyd, rydym yn ymdrin â'n targedau statudol mewn ffordd sy’n cyd-fynd â phrosesau'r Cenhedloedd Unedig, gan ystyried allyriadau tiriogaethol.

***Y diweddaraf am y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran  penderfynu ar gwmpas y Cynllun Dychwelyd Ernes (DRS) cyn diwedd tymor y gwanwyn 2024, a'r camau nesaf mewn perthynas â Chymru***

Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio'n ddyddiol gyda'r swyddogion cyfatebol yn Defra, Gogledd Iwerddon a'r Alban i ddatblygu'r Cynllun Dychwelyd Ernes ac maent wedi bod yn gweithio gyda'r diwydiant ac arbenigwyr yn y sector wrth iddynt fynd ati i'w ddylunio. Mae cryn gynnydd wedi'i wneud ar benderfynu'n derfynol ar gwmpas y Cynllun ac ar fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â rhyngweithredu, ac mae cynllun yr Alban bellach yn mynd rhagddo yn unol â'r un amserlen â gweddill y DU. Rwyf hefyd wedi cyfarfod yn ddiweddar â'r Gweinidog newydd yn Defra sy'n gyfrifol am ddatblygu'r Cynllun Dychwelyd Ernes yn Lloegr, er mwyn inni gael trafod bwrw ymlaen â'r cynllun. Y cam nesaf fydd dechrau'r gwaith drafftio terfynol ar y rheoliadau sydd eu hangen er mwyn rhoi'r cynllun ar waith.

Nid oes unrhyw reswm pam na ellir cytuno ar gwmpas y cynllun, a hynny oherwydd bod y sefyllfa bresennol yn adlewyrchu dyluniad terfynol y cynllun a gyhoeddwyd ac y cytunwyd arno ar y cyd â  Llywodraeth y DU. Y cam nesaf fydd datblygu'r ddeddfwriaeth ar gyfer Cymru, a fydd yn cael ei datblygu ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r llywodraethau eraill ar ddatblygu'r broses ymgeisio a'r canllawiau ar gyfer penodi gweithredwr y cynllun, yn barod ar gyfer sefydlu corff i weinyddu'r cynllun.

***Gwaith a wnaed ar ddatblygu targedau ailgylchu ar gyfer 2030 a thu hwnt***

Mae gwaith yn cael ei wneud mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol i ddatblygu'r llwybr ar gyfer cyrraedd y targedau o ailgylchu mwy na'r targed sylfaenol statudol o 70%, a fydd yn dod i rym yn 2024 a 2025.

Y cam cyntaf oedd comisiynu astudiaeth newydd o gyfansoddiad gwastraff trefol gweddilliol, a chyhoeddwyd y canlyniadau ym mis Gorffennaf 2023.

***Egluro'r amserlenni y mae'r Tasglu'n gweithio tuag atynt er mwyn datblygu targedau i atal niwed ecolegol yn nyfrffyrdd Cymru***

Mae Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd Cymru yn adolygu'r Adroddiad Tystiolaeth am Orlifoedd Storm yng Nghymru gyda golwg ar ddatblygu rhaglen tymor byr, tymor canolig a hirdymor fforddiadwy a chyraeddadwy e i atal niwed ecolegol i ddyfroedd ein hafonydd. Y Tasglu fydd yn penderfynu ar fformat y cynllun, gan gynnwys unrhyw dargedau cysylltiedig. Bydd gwybodaeth am y rhaglen a'r blaenoriaethau yn cael ei rhannu'n ehangach maes o law.

Y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd Cyfoeth Naturiol Cymru / Cynlluniau rheoli basnau afonydd sy'n darparu'r rhaglen waith gyffredinol a'r cynlluniau ar gyfer atal niwed ecolegol i ddyfroedd ein hafonydd, yn unol â gofynion Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017.

***Asesu a fydd y Gyfundrefn arfaethedig i Reoli Maethynnau'n Well yn effeithio ar ba mor effeithiol yw Rheoliadau 2021 o ran mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi llygredd dŵr ac aer sy'n ganlyniad i weithgareddau amaethyddol***

Cafodd  Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Gyfundrefn Rheoli Maethynnau'n Well ei osod gerbron y Senedd ar 29 Tachwedd

***Sut mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â Phwyllgor Newid Hinsawdd y DU wrth ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy***

Cyfrifoldeb y Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd yw'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae'n cael ei ddylunio ar y cyd â'r diwydiant a thimau polisi perthnasol Llywodraeth Cymru, sy'n gwneud cyfraniad cryf i'r gwaith. Mae adroddiadau ac argymhellion Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU wedi cael eu hystyried yn ystod y broses honno ac maent wedi dylanwadu ar y gwaith o ddylunio'r polisi a datblygu'r cynllun.  Mae ymgynghoriad wrthi'n cael ei gynnal ar hyn o bryd am y cynigion yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ond rydym wedi addasu rhai o'r cynigion fel eu bod yn cyd-fynd yn nes â chanfyddiadau Pwyllgor Newid Hinsawdd  y DU ar welliannau, er enghraifft, cynnwys mawndir sydd wedi'i newid yn fawr a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ar lannau afonydd yn ein haen sylfaenol er mwyn helpu i wella 'natur' a 'thir a moroedd sy'n cael eu gweithio'.

Bwriedir i fframwaith y Cynllun Ffermio Cynaliadwy fod yn broses barhaus, felly bydd swyddogion yn parhau i drafod â Phwyllgor Newid Hinsawdd y DU fel y bo'n briodol.

***Y diweddaraf am y trafodaethau rhynglywodraethol am drefniadau posibl i ddisodli Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol 2018 a chynlluniau i wneud yr un peth yng Nghymru os nad eir i'r afael â'r mater ar lefel y DU***

Bydd y darpariaethau ar gyfer Rhaglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol (NAPCP), a geir yn y Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol, yn cael eu dirymu ar 31 Rhagfyr o dan Atodlen 1 i Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023. Cafodd penderfyniad Llywodraeth y DU i ddileu'r darpariaethau ar gyfer Rhaglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol o'r Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol ei wneud drwy’rr Atodlen honno heb iddo gael ei ystyried drwy'r Fframwaith Cyffredin Ansawdd Aer. Rydym wrthi'n gweithio gyda Defra a'r Llywodraethau Datganoledig eraill drwy Weithgor y Fframwaith Cyffredin Ansawdd Aer i lywio'r trefniadau amgen y mae Defra yn bwriadu eu cyflwyno. Mae tryloywder a chraffu cyhoeddus yn agweddau pwysig ar Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru), a gyflwynwyd gerbron y Senedd ym mis Mawrth, ac rwy'n awyddus i'w gweld yn cael eu harfer yn yr achos hwn.

Rydym hefyd yn parhau i drafod gyda Defra a'r Llywodraethau Datganoledig eraill i geisio sicrhau ein bod yn cydweithredu ac yn mynd ati mewn ffordd agored i ddatblygu prosesau amgen posibl.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

15 Rhagfyr 2023

Annwyl Huw,

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn Nulyn**

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 23 Tachwedd ynghylch y cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol ac Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig sy'n cael ei chynnal yn Iwerddon, hoffwn dynnu eich sylw at fy natganiad ysgrifenedig heddiw, ac at hysbysiad y Cyngor sy'n crynhoi canlyniadau'r Uwchgynhadledd.

Tra roeddwn yn yr Uwchgynhadledd, manteisiais ar y cyfle i gynnal cyfarfodydd dwyochrog gyda'r Gweinidog Gwariant Cyhoeddus a Diwygio, Paschal Donohoe TD, y Taoiseach Leo Varadkar TD, Prif Weinidog yr Alban, y Gwir Anrhydeddus Humza Yousaf ASA, a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog dros Gysylltiadau Rhynglywodraethol, y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgorau canlynol: Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; Llywodraeth Leol a Thai; Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol; a Chydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir,

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: JJ-PO-435-2023

Llŷr Gruffudd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd,
Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

18 Rhagfyr 2023

**Cyhoeddiadau am Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU (UK ETS) Rhagfyr 2023:**

- **Ymgynghoriad am yr Adolygiad o Dyraniadau am Ddim;**
- **Ymgynghoriad am Bolisi ar Farchnadoedd yn y Dyfodol;**
- **Llwybr Hirdymor ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau y DU; ac**
- **Adolygiad o Gynllun Masnachu Allyriadau y DU2023 y DU**

Annwyl Llŷr,

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am hynt Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (UK ETS) ar ôl Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad "Developing the UK ETS", a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf eleni. Ymrwymwyd yn yr ymateb hwnnw i gyfres o ymgyngoriadau er mwyn parhau i ddatblygu'r cynllun.

Heddiw, mae Awdurdod ETS y DU (sy'n cynnwys Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon) wedi cyhoeddi dwy ddogfen ymgynghori: Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim; a Pholisi ar Farchnadoedd yn y Dyfodol. Mae'r ymgyngoriadau hyn yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y cynllun yn parhau i weithredu mewn ffordd mor effeithiol â phosibl a'i fod yn annog diwydiant i bontio i sero net. Mae'r Awdurdod hefyd wedi cyhoeddi dwy ddogfen arall: Llwybr Hirdymor ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau y DU ac Adolygiad o Gynllun Masnachu Allyriadau y DU 2023. Mae'r Adolygiad yn asesiad ôl-weithredol o sut mae'r cynllun wedi bod yn gweithio hyd yma. Mae'r Llwybr Hirdymor yn pennu llwybr hirdymor ar gyfer y cynllun, tan 2050.

Yr ymgynghoriad am yr Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim yw ail gam y broses asesu dyraniadau am ddim, sy'n cael eu defnyddio er mwyn gwarchod diwydiannau'r DU rhag cystadleuwyr byd-eang nad ydynt yn gorfod wynebu trefniadau prisio carbon (dadleoli carbon). Aed ati yn ystod y cam cyntaf i edrych ar elfen o'r brig i lawr y dyraniadau am ddim drwy ailbennu'r cap ar ddiwydiant, gan gyfyngu ar nifer y dyraniadau am ddim a geir o dan y cynllun. Dyna'r elfen o'r brig i lawr a gafodd ei chynnwys yn yr ymgynghoriad "Developing

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

the UK ETS”, y cyhoeddodd y Llywodraeth ymateb iddo ar 3 Gorffennaf. Mae'r ymgynghoriad sy'n cael ei gyhoeddi heddiw yn ystyried y fethodoleg o'r gwaelod i fyny ac yn edrych ar ffyrdd o dargedu dyraniadau am ddim yn well at y rheini sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddadleoli carbon, gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi wrth inni bontio i sero net. Bydd yn caniatáu i'r Awdurdod roi sicrwydd i'r rheini sy'n rhan o Gynllun Masnachu Allyriadau y DU am y dyraniadau am ddim y byddant yn eu cael yn y dyfodol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i Gymru gan fod rhai o'n diwydiannau, megis y diwydiant dur, yn agored iawn i gystadleuaeth oddi wrth ddiwydiannau byd-eang nad ydynt yn wynebu'r costau sy'n gysylltiedig â phrisio carbon ac sydd, felly, yn anos eu datgarboneiddio. Maent, felly, yn cael lefelau uchel o gymorth ar hyn o bryd drwy ddyraniadau am ddim. Mae'n bwysig nad ydym yn rhoi diwydiant Cymru dan unrhyw anfantais; os na fyddwn yn sicrhau hynny, byddwn yn gweld sefyllfa lle bydd y diwydiannau hynny'n adleoli i wledydd nad oes ganddynt yr un uchelgais o ran yr hinsawdd. Bydd yn arwain hefyd at risg o fwy o allyriadau byd-eang, gan olygu y bydd y broses bontio i sero net yn un annheg.

Nod yr ymgynghoriad am Farchnadoedd yw ailedrych ar bolisi'r Cynllun Masnachu Allyriadau ar Farchnadoedd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i ateb y gofyn a'i fod yn effeithiol wrth reoli'r risgiau sy’n wynebu cynllun sefydledig sy'n dal i aeddfedu. Hanfod y cynllun yw sicrhau bod y farchnad yn gweithredu mewn ffordd effeithiol, a bod arwerthu a masnachu lwfansau allyriadau rhwng y rheini sy'n rhan o'r cynllun yn creu'r signal pris carbon a fydd yn sbarduno buddsoddiad mewn datgarboneiddio. Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn am y trefniadau a'r dulliau a ddefnyddir er mwyn sicrhau bod y cynllun yn parhau i weithredu'n effeithiol.

Llwybr Hirdymor Cynllun Masnachu Allyriadau y DU yw ymateb yr Awdurdod i "Mission Zero: Independent Review of Net Zero", a gadeiriwyd gan Chris Skidmore AS. Er mai Llywodraeth y DU gomisiynodd y adolygiad annibynnol, roedd yn cynnwys argymhellion ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau y DU, gan gynnwys pennu llwybr hirdymor. Cafodd yr adolygiad gymeradwyaeth gref gan bob rhan o'r Awdurdod, o ran pwysigrwydd prisio carbon ac o ran y rôl ganolog y bydd Cynllun Masnachu Allyriadau y DU yn parhau i'w chwarae o ran ein galluogi i ddefnyddio'r farchnad i gyflawni sero net. Felly, mae'r ddogfen a gyhoeddir heddiw yn rhoi sicrwydd y bydd Cynllun Masnachu Allyriadau sy'n gydnaws â chyflawni sero net yn parhau tan o leiaf 2050 ac mae’n cadarnhau'r bwriad i ystyried ffyrdd o ddatblygu ac ehangu'r cynllun yn y dyfodol.

Yn cael ei gyhoeddi heddiw hefyd y mae adolygiad o sut y mae Cynllun Masnachu Allyriadau y DU wedi bod yn gweithio ers iddo gael ei lansio – mae'r adolygiad hwnnw'n bodloni ymrwymiad statudol. Mae'r adolygiad yn tynnu ar ymgyngoriadau blaenorol, ar ddata am y farchnad ac am gydymffurfiaeth, ac ar astudiaeth fonitro a gwerthuso annibynnol a gomisiynwyd gan yr Awdurdod. Mae Adolygiad yn dod i'r casgliad bod Cynllun Masnachu Allyriadau y DU wedi bod yn ateb ei ddiben a'i fod yn parhau'n offeryn polisi allweddol er mwyn cyflawni sero net. Mae hefyd yn cadarnhau ymrwymiadau'r Awdurdod i adeiladu ar y ffordd y mae'r Cynllun yn gweithredu ar hyn o bryd drwy gyflwyno gwelliannau o ran polisi ac o ran sut y mae'n gweithredu.

At ei gilydd, rwyf o'r farn bod Cynllun Masnachu Allyriadau y DU yn parhau’n ysgogiad polisi dylanwadol iawn er mwyn cyflawni sero net yng Nghymru, a'i fod yn blatfform hanfodol er mwyn annog busnesau i fuddsoddi mewn technolegau datgarboneiddio, a'u mabwysiadu. Yn Ymateb y Llywodraeth i “Developing the UK ETS”, gwnaed ymrwymiad hefyd i gynnal rhagor o ymgyngoriadau am ehangu'r cynllun, ac mae'r Awdurdod yn bwriadu eu cyhoeddi nhw maes o law. Byddaf, wrth gwrs, yn ysgrifennu atoch eto pan gânt eu cyhoeddi. Gyda'i gilydd, bydd yr wybodaeth a gesglir yn ein helpu i fireinio'r cynllun, ac yn ein galluogi i greu trefniadau mwy cadarn a fydd yn cymell diwydiant i arloesi, yn sbarduno gostyngiadau mewn allyriadau, ac yn sicrhau dyfodol cydnerth a chynaliadwy i Gymru.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Eitem 3.4

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Paul Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Delyth Jewell AS
Cadeirydd, Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

19 Rhagfyr 2023

Annwyl Gadeiryddion,

Ymchwiliad i Lywodraethiant y DU a'r UE

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Senedd yn ystyried effaith gyfansoddiadol materion allanol Cymru, gan gynnwys llywodraethiant a gweithredu cytundebau rhwng y DU a'r UE.

Yn ddiweddar gwnaethom gynnal ymchwiliad byr i lywodraethiant y DU a'r UE i adeiladu ar ein canfyddiadau cynnar ar rôl a chynrychiolaeth Llywodraeth Cymru a'r Senedd mewn cysylltiadau rhwng y DU a'r UE ar ôl Brexit, fel y nodwyd yn ein tystiolaeth a gyflwynwyd i Bwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi ym mis Hydref 2022.

Oherwydd y gwaith y mae eich Pwyllgorau yn eu gwneud o fewn eich cylch gwaith mewn perthynas â chytundebau rhwng y DU a'r UE, cytunwyd i dynnu eich sylw at ein adroddiad ar yr ymchwiliad.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Er gwybodaeth, rydym yn bwriadu cynnal dadl ar yr adroddiad ar 21 Chwefror 2024.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

# Dilyniant i Sesiwn y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith

## 9 Tachwedd 2023

Diolch am y cyfle i siarad â'r pwyllgor fel rhan o'i Ymchwiliad i Ansawdd Dŵr yng Nghymru.

Nod y canlynol yw ceisio mynd i'r afael â rhai o'r cwestiynau a godwyd fel rhan o'r drafodaeth a darparu mewnwelediad ychwanegol i safbwynt Cyfoeth Naturiol Cymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, mae croeso i chi gysylltu â ni drwy e-bostio [government.business@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:government.business@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk).

*********************************************************************************************

### 1. Effaith newidiadau i'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol

Gwnaethom nodi'r adolygiad o'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol a osodwyd ym mis Tachwedd 2023, sy'n manylu ar ofynion y Dull Uwch ar gyfer Rheoli Maethynnau.

Nid yw'r adolygiad yn cynnig unrhyw newidiadau i ofynion y Dull Uwch ar gyfer Rheoli Maethynnau fel y nodir yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru. Mae'r newidiadau yn y ddeddfwriaeth wedi'u cyfyngu i'r broses y mae rheolwyr tir yn ei defnyddio i hysbysu CNC o'u bwriad i ddefnyddio'r Dull Uwch ar gyfer Rheoli Maethynnau. Mae'r cyfnod y gellir defnyddio'r Dull Uwch ar gyfer Rheoli Maethynnau wedi'i gyfyngu ac yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2024.

Nid ydym o'r farn bod y newidiadau hyn yn lleihau'r ymdrech i ddiogelu'r amgylchedd. Ar gyfer y safleoedd lle mae rheolwyr tir wedi hysbysu CNC o'u bwriad i ddefnyddio'r Dull Uwch ar gyfer Rheoli Maethynnau, bydd cydymffurfedd â'i ofynion yn rhan o'n rhaglen o arolygiadau o dan y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.

### 2. Rôl gorfodi CNC

Mae gwaith rheoleiddio cryf yn sail i'n pwrpas, sef gwarchod, cynnal a gwella adnoddau naturiol Cymru fel y gall pobl fyw bywydau gwell ac iachach a bod ein bywyd gwyllt yn gallu ffynnu. Rydym yn rheoleiddio amrywiaeth o weithgareddau ac yn cymhwyso cyfres o ymatebion gorfodi ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn cydymffurfio neu sy'n gwbl anghyfreithlon er mwyn diogelu ein hamgylchedd, atal llygredd, a mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Mae ein Polisi Gorfodi a Sancsiynau yn nodi sut yr ydym yn ymgymryd â gwaith gorfodi, i sicrhau yr ymdrinnir â throseddau amgylcheddol mewn modd cadarn, teg a chymesur, yn unol â Chod y Rheoleiddwyr, gan ganolbwyntio ar rwystro ac atal niwed pellach i'r amgylchedd. Mae ein Hopsiynau Ymateb i Droseddau yn amlinellu'r

ystod o arfau gorfodi sydd ar gael i ni, gan gynnwys cynghori, rhybuddio, cyflwyno hysbysiadau gorfodi, sancsiynau sifil, ac erlyniad.

Nod yr ymyriadau gorfodi hyn yw gwarchod yr amgylchedd drwy wneud y canlynol:

- Atal y drosedd/troseddau
- Adfer ac adweirio'r canlyniadau amgylcheddol
- Cymryd camau ffurfiol os yw o ddiddordeb cyhoeddus
- Atal eraill rhag llygru neu niweidio'r amgylchedd yn fwriadol neu'n esgeulus
- Atal aildroseddu
- Cefnogi cydymffurfedd â'r cyfundrefnau rheoleiddio a sicrhau chwarae teg i fusnesau cyfreithlon

Mae'r arf gorfodi a ddewisir yn dibynnu ar ddifrifoldeb a natur y drosedd, yn ogystal â pharodrwydd y troseddwr i gydymffurfio â gofynion rheoliadol. Rydym yn mabwysiadu dull gorfodi sy'n seiliedig ar risg, gan gymryd camau gweithredu pan fydd tystiolaeth o drosedd amgylcheddol ac os yw'n fater o ddiddordeb cyhoeddus.

Gall rhai troseddau fod yn droseddau mân neu anfwriadol. Yn yr achosion hyn, efallai y byddwn yn teimlo bod ceisio addysgu neu ddefnyddio dulliau llai ffurfiol yn fwy buddiol. Gallai hyn gynnwys darparu cyngor ac arweiniad i atal troseddau tebyg rhag digwydd yn y dyfodol, neu drwy ddefnyddio trefniadau gwirfoddol i annog cwmnïau ac unigolion i gymryd camau i fynd i'r afael â'r niwed amgylcheddol a achoswyd gan eu gweithredoedd.

Fodd bynnag, mae rhai troseddau'n ddifrifol neu'n cael eu cyflawni gan droseddwyr nad ydynt yn poeni am gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol. Mae CNC yn gwbl ymrwymedig i ddefnyddio erlyniad ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol ar draws yr ystod o droseddau yr ydym yn eu rheoleiddio. Byddwn yn mynd â chwmnïau neu unigolion i'r llys os yw arfau gorfodi eraill wedi bod yn aneffeithiol neu os yw'r drosedd yn arbennig o ddifrifol ac yn fater o ddiddordeb cyhoeddus.

Mae ein dull gweithredu yn pwysleisio pwysigrwydd cydweithrediad a gweithio mewn partneriaeth gyda rheoleiddwyr, cymunedau lleol a busnesau i atal troseddau amgylcheddol rhag digwydd yn y lle cyntaf, neu i sicrhau ymateb amgylcheddol amddiffynnol i unrhyw drosedd a gaiff ei chyflawni. Mae hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol a hyrwyddo arferion amgylcheddol da, yn ogystal â chydweithio â busnesau i'w helpu i gydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau amgylcheddol. Mae'n werth nodi bod ein llwyddiant yn y maes hwn yn llai amlwg ac yn anoddach i'w fesur. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd yn arwain at lefelau is o orfodi ffurfiol, megis erlyniad.

Mae ein Hadroddiadau Rheoleiddio Blynyddol yn nodi ein perfformiad o ran rheoleiddio ac effeithiolrwydd ein dull rheoleiddio. Mae'r adroddiadau'n edrych ar gydymffurfedd, digwyddiadau llygredd, gweithgarwch troseddol a gorfodi, a sut yr ydym wedi cyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio a gorfodi ym mhob blwyddyn galendr.

Ers 2019, rydym wedi cofnodi dros 3,600 o achosion gorfodi newydd, sy'n cynnwys 3,350 o droseddwyr, gyda thros 5,100 o gyhuddiadau unigol. Mae nifer y cyhuddiadau yn uwch na'r achosion gan fod troseddwyr yn aml yn wynebu sawl cyhuddiad. Gweler y ffigurau yn y tabl isod:

| Blwyddyn | Cyfanswm yr achosion | Cyfanswm y cyhuddiadau | Cyfanswm y troseddwyr |
|---|---|---|---|
| 2019 | 640 | 938 | 632 |
| 2020 | 639 | 903 | 646 |
| 2021 | 1,010 | 1,350 | 968 |
| 2022 | 884 | 1,246 | 610 |
| 2023 (hyd at 3 Hydref) | 497 | 673 | 495 |

Mae’r tabl canlynol yn amlygu ein defnydd o’r ystod lawn o arfau gorfodi a chosbi sydd ar gael i'w defnyddio, gyda’i gilydd os oes angen, er mwyn cyflawni’r canlyniadau gorau posibl i’r amgylchedd ac i bobl:

| Allbwn gorfodi | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|
| Cyngor a chanllawiau | 153 | 348 | 304 |
| Llythyrau rhybuddio | 324 | 479 | 449 |
| Rhybuddiad ffurfiol | 30 | 44 | 34 |
| Erlyniadau: | 68 | 54 | 66 |
| Dirwyon llys | £25,097 | £262,414 | £510,156 |
| Dyfarnwyd costau | £33,784 | £131,027 | £110,613 |
| Dim camau pellach | 39 | 67 | 43 |
| Hysbysiadau gorfodi | 19 | 31 | 27 |
| Hysbysiadau cosb benodedig | 7 | 1 | 8 |
| Sancsiynau sifil | 3 | 8 | 4 |
| Dirymu trwydded | - | 2 | 2 |

Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod oedi anochel wedi bod o ran adrodd. Mae hyn fel arfer o ganlyniad i natur ein gwaith ymchwilio a gorfodi, o ystyried yr amser y gall ei gymryd i ymchwilio i ddigwyddiad, nodi troseddwyr posibl, cael barn gyfreithiol, a diweddaru ein systemau ar gynnydd a chanlyniadau gorfodi. Mae nifer yr allbynnau gorfodi a nodwyd yn debygol o gynyddu, gan fod llawer o achosion yn parhau i fynd rhagddynt ar draws blynyddoedd calendr. Rydym yn deall y cwestiynau

parhaus mewn perthynas â chynyddu erlyniadau, ond yr hyn sydd yn allweddol i'w gofio yw nad yw erlyn ar ei ben ei hun yn arwain at gydymffurfedd neu'n unioni'r achos sylfaenol. Gallai arfau rheoleiddio a gorfodi eraill arwain at ganlyniad gwell.

Rydym yn parhau i weld pwysau ar ein hamgylchedd naturiol, ac mae achosion o ddiffyg cydymffurfio rheoleiddiol, troseddu a llygredd yn achosi difrod diangen ond sylweddol. Mae hyn, yn ei dro, yn effeithio ar gymunedau ac yn tanseilio busnesau cyfreithlon. Gall y pwerau sydd gennym ni a chyfyngiadau rheoleiddiol a data gyfyngu ein hallbynnau. Mae CNC yn mynd ar drywydd cyfleoedd i helpu i wella ystod, effeithlonrwydd a chanlyniadau ein hymyriadau gorfodi troseddol a sifil, er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am achosi niwed yn cyfrannu at wella neu adfer ein hamgylchedd. Ar hyn o bryd, dim ond pwerau cyfyngedig sydd gan CNC mewn perthynas â sancsiynau sifil a byddai'n awyddus i gydweithio ymhellach gyda Llywodraeth Cymru ar gyfleoedd i gyflwyno sancsiynau sifil ychwanegol ar gyfer gweithgareddau gyda thrwyddedau amgylcheddol.

**Rhagfyr 2023**

Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link



Llyr Gruffydd MS, Chair of Climate Change, Environment and Infrastructure Committee
Welsh Government
Tŷ Hywel
Cardiff Bay
CF99 1NA

**8 December | 2023**

Dear Llyr,

**Re: Enhanced Nutrient Management Approach**

Wales Environment Link members have serious concerns about the impact of the amended Control of Agricultural Pollution Regulations, and Enhanced Nutrient Management Approach, on air, soil and water quality and the consequent impacts on nature. WEL members strongly feel that the ENMA waters down the original policy intent of the Control of Agricultural Pollution Regulations and makes it more difficult for the Welsh Government to meet key objectives on biodiversity, air quality, ammonia and particulate matter whilst contributing to reducing greenhouse gas emissions. In particular, we believe the ENMA is at odds with Welsh Government's COP15 commitment to reduce nutrient inputs by a minimum of 50% by 2030. We are also not aware of any investigation that was carried out to assess the impact of the change to the Agricultural Pollution regulations on the current state of rivers in Wales, many of which are already in poor ecological health. This is a source of great concern to WEL members.

According to the summary of responses to the November 2022- February 2023 consultation regarding a time-limited license scheme 'the majority of respondents indicated strong support for the principle of a limited license scheme alongside controls to mitigate potential environmental risks'.

We believe that licensing would provide NRW with a means to:

- withhold permission to undertake an activity;
- recover costs of monitoring and inspection using license fees; and
- take enforcement action if license conditions are not met.

In this respect the ENMA does not offer good value for money and, by not providing a public register of farms participating in the ENMA, it also lacks transparency. We believe that the ENMA increases the risk that pollution events will go unnoticed, and we have particular concerns about risks to SAC rivers.

WEL is keen that the ENMA does not continue after the first year, and we would like to see the original Control of Agricultural Pollution Regulations limit on the amount of nitrogen in livestock manure that may be applied to a holding (170 kg/N/ha) reinstated at the end of this period. If the Welsh Government does choose to continue with this approach, it must introduce a licensing scheme following the first year of ENMA, to increase transparency and resources for monitoring and enforcement. To meet the COP15 commitment to reduce nutrient inputs by a minimum of 50% by 2030, licensing should be regarded as a transition step to the original policy intent of the Control of Agricultural Pollution Regulations.

River pollution is clearly a priority for the Welsh Government given their commitment to holding a series of river pollution summits, attended by the First Minister, his colleagues and multiple stakeholders, the third of which recently took place in Cardiff. We believe the amendments to the Agricultural Pollution Regulations are an inadequate response to river pollution at a time when the level of public concern across Wales about the state of our rivers has never been higher.

We have enclosed a short briefing which explains WEL's concerns in more detail, and we request that the wider environmental impacts of this change be investigated by the Climate Change, Environment and Infrastructure Committee, and that the new regulations should also be considered by the Committee.

Yours sincerely,

Andrew Tuddenham, Co-Chair, WEL Land Use Group

**Swyddfa Caerdydd**
Tramshed Tech
Uned D, Stryd Pendyris Caerdydd CF11 6BH
F: 07498 228066 | E: enquiry@waleslink.org
Trydar: @WalesLink

**Cardiff Office**
Tramshed Tech
Unit D, Pendyris Street, Cardiff CF11 6BH
T: 07498 228066 | E: enquiry@waleslink.org
Twitter: @WalesLink

www.waleslink.org



Cadeirydd | Chair: Roger Thomas. Cyf-Gyfarwyddwyr | Joint Directors: Susan Evans and Karen Whitfield.
Rhif Elusen Gofrestredig | Registered Charity Number: 1022675

Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link

# Implementing the Control of Agricultural Pollution Regulations

December 2023

## Introduction

The Minister for Rural Affairs has announced that, following the consultation in early 2023 "Nutrient management: managing the application of livestock manures sustainably", an Enhanced Nutrient Management Approach (ENMA) will be taken for holdings or part of holdings not previously situated within an NVZ. This approach will allow higher levels of nitrogen application (up to 250kg/n/ha) from livestock manure, until the end of 31 December 2024, subject to crop need and well-defined environmental controls. This will not be a licensing scheme as was proposed in the consultation. Instead, it would require farmers wishing to take this approach to notify Natural Resources Wales of their intention, subject to meeting certain environmental requirements.

WEL members strongly feel that this approach takes us further away from the original policy intent of the Control of Agricultural Pollution Regulations, which sought to reduce nutrient inputs by setting a 170kg/n/ha limit. It will also make it more difficult for the Welsh Government to achieve its COP15 commitment to reduce nutrient inputs by a minimum of 50% by 2030.

## Key Areas of Concern

### Monitoring, Compliance and Enforcement

We know that further regulations are expected, which will provide more detail on the ENMA. These need to set out how compliance with the new rules will be monitored. Farmers wishing to apply a higher level of nitrogen from livestock manures to their land will need to notify NRW, but it is unclear how NRW will be able to identify farms that are spreading a higher level of nitrogen which haven't notified them of their intention. WEL's response to the Welsh Government consultation strongly supported the introduction of a license scheme because we believed it would provide:

- a means whereby permission to undertake an activity can be refused e.g because of the unsuitability of the site or skill set of the operator;
- a means of raising income to fund monitoring and compliance checking, reducing reliance on taxpayer funding and following the “polluter pays” principle;
- a basis for public transparency as to the extent and location of the licensed activity, who is undertaking it and the standards they have to meet;
- a demonstration that farmers are (assuming they are compliant with license conditions) meeting the required standards;
- an ability to regulate and take enforcement action where necessary if the licence conditions are not met.

The new approach is so far unclear on whether a notification of the intention to spread higher levels of nitrogen could be refused, and how NRW will assess compliance with ENMA environmental conditions. It is also unclear if NRW will be able to sanction farmers if there is evidence of non-compliance. We also believe that this is a missed opportunity to provide NRW with additional resources to monitor compliance and take any necessary enforcement action, creating an increased risk of pollution events going unnoticed. In accordance with the Polluter Pays Principle, other sectors, such as the water industry, waste and recycling industry and construction industry, pay the cost of NRW compliance checking through their regulatory fees and charges. We are concerned that the Polluter Pays Principle will not be applied in this case, resulting in compliance checking costs falling on the taxpayer.

**Impact on Rivers**
We believe this new approach brings a higher risk of pollution to our rivers. If appropriate conditions for higher levels of spreading are to be effectively monitored and enforced, NRW will need additional resources to avoid further pollution incidents. We are particularly concerned at the lack of evidence that this approach will not harm SAC rivers, many of which are already in an unfavourable ecological condition. Given that other sectors must undertake assessments to demonstrate their proposals meet Habitats Directive nutrient neutrality requirements, we would like to know what assessment has been made of the impact of enabling higher

nitrogen spreading levels on SAC rivers, particularly those which already exceed target levels of nutrients.

In England, the Environment Agency has stated that within SAC catchments, farmers seeking a NVZ derogation to apply up to 250kg N/Ha must provide an assessment of the impact on the SAC. Derogations may be refused if an adverse impact is likely. We are concerned that the Welsh regulations appear to have no similar provision for preventing additional nutrient impacts in SAC catchments.

Now that the regulations have been published, we are pleased to see that phosphorus testing has been included as part of the conditions for spreading above the limit of 170kg/n/ha, given NRW's finding that 61% of Welsh SAC waterbodies were failing phosphate targets. We know that in certain areas of Wales, such as the Wye catchment, soils already exceed safe phosphorus levels. It is critical that these areas do not receive further phosphorus inputs.

## Recommendations

- Welsh Government and NRW to publish a clear process for farmers to follow when notifying NRW, specifying information requirements, including crop need, recent soil nutrient data, site suitability, and detail on type of fertiliser and application methods and timing.
- Welsh Government and NRW to publish clear outline of the options and actions which NRW can apply in response to either notifications, subsequent spreading activity, or environmental consequences.
- NRW must be able to take enforcement action for non-compliance with the amended Control of Agricultural Pollution regulations. The Precautionary Principle must apply, and protection should not be weakened by restricting action to cases where there is evidence of a serious pollution event having occurred. The regulations are there to prevent pollution and non-compliance must be enforced, with data on non-compliance published transparently.
- The Senedd should review Welsh Government's Regulatory Impact Assessment, as previously committed, considering the economic and environmental impacts of the 170kg/ha annual holding nitrogen limit to ensure that evidence.

- There needs to be an assessment, either, at a strategic level or on a farm-by-farm basis, of the impact of the ENMA in SAC designated catchments, with applications above 170kg N/ha not permitted if an adverse impact on the SAC is likely.
- There needs to be full transparency concerning implementation of the new regulations, including data from NRW on the levels of compliance, farm visits undertaken by NRW, and any action taken.

WEL is keen that the ENMA does not continue after the first year, and we would like to see the original Control of Agricultural Pollution Regulations limit of 170kg/n/ha reinstated at the end of this period. If the Welsh Government does choose to continue with this approach, it must introduce a licensing scheme following the first year of ENMA, to increase transparency and resources for monitoring and enforcement. To meet the COP15 commitment to reduce nutrient inputs by a minimum of 50% by 2030, licensing should be regarded as a transition step to the original policy intent of the Control of Agricultural Pollution Regulations.

Wales Environment Link (WEL) is a network of environmental, countryside and heritage Non-Governmental Organisations in Wales. WEL is a respected intermediary body connecting the government and the environmental NGO sector. Our vision is a thriving Welsh environment for future generations.

This paper represents the consensus view of a group of WEL members working in this specialist area. Members may also produce information individually in order to raise more detailed issues that are important to their particular organisation.


**Swyddfa Caerdydd**
Tramshed Tech
Uned D, Stryd Pendyris Caerdydd CF11 6BH
F: 07498 228066 | E: enquiry@waleslink.org
Trydar: @WalesLink

**Cardiff Office**
Tramshed Tech
Unit D, Pendyris Street, Cardiff CF11 6BH
T: 07498 228066 | E: enquiry@waleslink.org
Twitter: @WalesLink

**www.waleslink.org**




Cadeirydd | Chair: Roger Thomas. Cyf-Gyfarwyddwyr | Joint Directors: Susan Evans and Karen Whitfield.
Rhif Elusen Gofrestredig | Registered Charity Number: 1022675

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-JJ-3057-23

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15 Rhagfyr 2023

Annwyl Llŷr

Diolch am Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith mewn perthynas â Bil Seilwaith (Cymru), a gyhoeddwyd ar 24 Tachwedd 2023.

Gweler fy ymatebion i'r set o argymhellion yn yr adroddiad yn Atodiad 1. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad er gwybodaeth.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Atodiad 1

## Bil Seilwaith (Cymru)

## Ymatebion i argymhellion y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

**Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Senedd yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Diolch yn fawr am gefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.

**Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi amserlen fanwl ar gyfer paratoi a chyhoeddi'r is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r Bil a, lle bo'n briodol, ar gyfer ymgynghori ar yr is-ddeddfwriaeth honno.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Byddaf yn rhoi diweddariad ar y cynllun gweithredu wrth i'r Bil gael ei basio. Nodir hyn mewn llythyr i'r Pwyllgor.

**Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi darnau allweddol o is-ddeddfwriaeth mewn drafft ac ymgynghori â rhanddeiliaid cyn bwrw ymlaen â'r fersiynau terfynol.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Rwy'n deall pwysigrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau lleol yn gynnar yn y broses ddeddfwriaethol mewn ffordd gynhwysol ac ystyrlon.

Rwyf am i randdeiliaid gymryd rhan wrth osod y darpariaethau, gan sicrhau yn ogystal â sicrwydd, bod pob rhanddeiliad o'r farn bod y darpariaethau yn ymarferol. Perygl ymgynghori ar reoliadau drafft yw y gall rhanddeiliaid ystyried ein bod ni eisoes wedi penderfynu ar ein cynigion a gall arwain at ymgysylltiad llai ystyrlon.

**Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog sicrhau bod digon o amser ar gael i bwyllgorau'r Senedd ystyried y darnau allweddol o is-ddeddfwriaeth yn y Bil a fydd yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Fy mwriad yw dilyn Rheolau Sefydlog.

**Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog sicrhau bod fersiynau digidol o'r is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r Bil, a chanllawiau a dogfennau cysylltiedig, ar gael mewn un man ar y rhyngrwyd sy'n hawdd ei gyrchu i'r cyhoedd, cyrff cyhoeddus a datblygwyr.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Byddaf yn ceisio sicrhau bod yr holl is-ddeddwriaeth a chanllawiau a gyhoeddir i ategu'r Bil mor hygyrch â phosibl i'r holl randdeiliaid.

**Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog gyhoeddi amserlen ddangosol yn nodi pryd y penderfynir ar y trefniadau pontio i'r gyfundrefn newydd.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Mewn  ymateb i Argymhelliad 2, rwyf wedi cytuno i ddarparu cynllun gweithredu mewn perthynas â'r rhaglen is-ddeddfwriaeth. Bydd trefniadau pontio yn dilyn yr un amserlen.

Fy mwriad hefyd yw rhoi rhagor o eglurder ar y trefniadau pontio cyn yr ymgynghoriad ehangach ar is-ddeddfwriaeth. Rwy'n bwriadu cyhoeddi datganiad polisi o fwriad diwygiedig a fydd yn nodi ein cynigion presennol yn fanwl. Rwy'n bwriadu cynnal gwaith ymgysylltu penodol ar y cynigion hyn cyn yr ymgynghoriad ehangach. Bydd canlyniad yr ymgyngoriadau hyn yn helpu i lywio ffurf a chynnwys terfynol y darpariaethau trosiannol a gaiff eu hystyried.

**Argymhelliad 7. Rhaid i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus gydweithio i ddod o hyd i'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ddarparu'r cyngor arbenigol sydd ei angen ar draws gwahanol leoliadau daearyddol. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar gynnydd o fewn y 6 mis nesaf.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Byddaf yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yn cydweithio mewn perthynas â darparu cyngor arbenigol. Bydd diweddariad ar gynnydd hyn yn cael ei roi mewn 6 mis.

Gall y sgiliau a'r arbenigedd fod yn arbenigol iawn yn dibynnu ar natur y cynllun. Mae potensial i gronni neu rannu'r arbenigedd hwn i helpu yn y broses gydsynio, drwy ffyrdd ffurfiol ac anffurfiol.

Rwy'n parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y Bil a byddaf yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael.

**Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y meini prawf yn Rhan 1 i ddatrys pryderon cyn i'r Bil gwblhau ei daith drwy'r Senedd**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae fy swyddogion yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn enwedig Cyfoeth Naturiol Cymru a'r diwydiant ynni mewn perthynas â chynhyrchu hydrogen a ffyrdd eraill o storio ynni.

Ar hyn o bryd, caiff y defnydd o hydrogen ei nodi gan y Bil naill ai fel ffordd o gynhyrchu ynni neu fel cyfrwng o gludo ynni sy'n gysylltiedig â math gwahanol o gynhyrchu ynni.

Nid oes trothwy penodol ar gyfer cynhyrchu hydrogen oherwydd nid oes gennym ddigon o dystiolaeth hyd yma i ddeall beth fyddai trothwy priodol ar gyfer y mathau hyn o brosiectau.  Ar hyn o bryd, bydd cynhyrchu hydrogen yn cael ei nodi gan y Bil fel datblygiad cysylltiedig o Brosiect Seilwaith Arwyddocaol neu gallai gael ei gyfeirio i gael cydsyniad yn y gyfundrefn newydd o dan adran 22 o'r Bil.

Mewn perthynas â phiblinellau, yn dilyn adolygiad o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r pwyllgor hwn, rwy'n ystyried cyflwyno diwygiadau i Ran 1 o'r Bil i gynnwys piblinellau, yn amodol ar y cyfyngiadau a osodwyd gan Ddeddf Cymru 2017.

Rwy'n hapus cadarnhau mai'r trothwyon 50MW ar gyfer ffermydd solar fydd y gyfradd wrthdro (AC).

Mewn perthynas â'r pryderon a fynegwyd gan Dŵr Cymru, byddaf yn ymgysylltu ymhellach â nhw.

**Argymhelliad 9. Dylai'r Gweinidog egluro ei safbwynt ar gynnwys darpariaeth "optio i mewn" yn y gyfundrefn prosiectau seilwaith arwyddocaol ac esbonio a yw'n ystyried y gellid defnyddio'r pŵer yn adran 22 o'r Bil i hwyluso gweithdrefn o'r fath.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Nid wyf yn bwriadu cynnwys darpariaeth "optio i mewn" yn y Bil gan fy mod o'r farn y byddai'n arwain at lai o eglurder yn y gyfundrefn gydsynio newydd.

Mae Adran 25 y Bil yn caniatáu i ddatblygwyr gyflwyno cais cymwys i Weinidog Cymru. Bydd ffurf y cais yn cael ei osod yn y rheoliadau a bydd yn caniatáu i ddatblygwyr esbonio pam eu bod yn credu y dylai neu na ddylai eu prosiect gael ei ystyried yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol, yn yr un modd â cheisiadau cymwys eraill fel cais sgrinio Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.  Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu a yw prosiect o arwyddocâd cenedlaethol ac a ddylai fod yn Brosiect Seilwaith Arwyddocaol.

**Argymhelliad 10. Dylai'r Gweinidog egluro pam nad yw'r meini prawf sy'n gysylltiedig â'r meysydd yn adran 17 wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil?**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Bwriad Adran 17 y Bil yw diwygio Rhan 1 os bydd angen ychwanegu prosiect seilwaith arwyddocaol newydd neu os bydd angen diwygio'r trothwyon sy'n bodoli yn y dyfodol. Bydd yr adran hon yn diogelu'r Bil i'r dyfodol yn unol â datblygiadau technolegol. Byddai gosod y meini prawf a'r trothwyon yn adran 17 y Bil yn trechu diben y pŵer hwn.

**Argymhelliad 11. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 25 i fandadu cyhoeddi canllawiau mewn perthynas â'r amgylchiadau pan gaiff Gweinidogion Cymru ddefnyddio pwerau cyfarwyddo adran 22 neu 24.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol.

Rwy'n llwyr fwriadu cyhoeddi canllawiau o ran sut bydd y pwerau cyfarwyddo hyn yn cael eu cymhwyso ond nid wyf o'r farn y dylid gosod hyn ar wyneb y Bil. Byddai hefyd yn anghyson â gweddill y Bil.

**Argymhelliad 12. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 25 i bennu terfyn amser erbyn pryd y mae'n rhaid i'r Gweinidog ymateb i gais cymwys gan ddatblygwr am gyfarwyddyd o dan adran 22 neu 24**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae Adran 26 y Bil eisoes yn nodi y gall rheoliadau wneud darpariaeth o ran y terfynau amser i wneud penderfyniadau yn dilyn cais am gyfarwyddyd. Felly, nid oes angen diwygio adran 25 y Bil.

**Argymhelliad 13: Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i roi mwy o eglurder mewn perthynas â phrosesau ymgynghori a chyhoeddusrwydd. Dylai'r Gweinidog ystyried darpariaethau Deddf Cynllunio 2008 fel man cychwyn.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Nodaf sylwadau'r Pwyllgor mewn perthynas â'r angen i fod yn fwy eglur mewn perthynas â phrosesau ymgynghori a chyhoeddusrwydd. Rwyf wedi nodi'r gofynion sylfaenol yn fanwl ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu a fyddai'n debygol o gael eu cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth yn y Datganiadau o Fwriad y Polisi sy'n cyd-fynd â'r Bil.

Man cychwyn yw'r datganiadau hyn, a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ehangach wrth i'r is-ddeddfwriaeth gael ei datblygu. Felly, gall y gofynion manwl newid ar sail unrhyw sylwadau a ddaw gan randdeiliaid.

Rwyf wedi mabwysiadu'r dull o osod safon ofynnol mewn is-ddeddfwriaeth gan ei fod yn cymhwyso gofynion sylfaenol at bob datblygiad arfaethedig a nodir gan y Bil. Mae hyn yn rhoi sicrwydd ac eglurder i randdeiliaid a chymunedau lleol ar yr hyn y gallant ei ddisgwyl fel rhan o ymarfer ymgynghori ac ymgysylltu. Mae hefyd yn ein galluogi i newid ac addasu i unrhyw ddulliau ymgysylltu ac ymgynghori newydd ac sy'n dod i'r amlwg a allai gael eu cynnwys yn y broses gydsynio newydd fel safon ofynnol cyn gynted â phosibl.

Mae hyn yn mynd y tu hwnt i Ddeddf Cynllunio 2008, nad yw'n nodi unrhyw safonau gofynnol ac nad yw'n cynnig fawr sicrwydd na chysondeb o un cais i'r llall.

Fodd bynnag, rwy'n cydnabod y budd sy'n gysylltiedig â chyfleoedd i ddarpar ymgeiswyr gynnal trafodaethau ag awdurdodau cynllunio lleol perthnasol o ran sut y gallent o bosibl fynd y tu hwnt i unrhyw ofynion ymgynghori ac ymgysylltu sylfaenol, yn enwedig gan fod ganddynt wybodaeth am grwpiau cymunedol lleol, lleoliadau addas ar gyfer digwyddiadau a gwybodaeth arall a all fod o gymorth wrth ymgynghori ac ymgysylltu. Felly, gallaf byddaf yn ei gwneud yn ofynnol i ddarpar ymgeiswyr gymryd rhan mewn trafodaethau â'r Awdurdod Cynllunio Lleol perthnasol, os caiff corff addas ei nodi ar gyfer datblygiadau ar y môr.

Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i bennu gofynion sylfaenol mewn is-ddeddfwriaeth ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori. O gofio hyn, byddai'n well gosod y gofyniad i ddatblygwr ymgysylltu â'r Awdurdod Cynllunio Lleol (a chorff arall o bosibl) mewn is-ddeddfwriaeth, ynghyd â'r gofynion sylfaenol.

At hynny, rwyf wedi cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu ac ymgynghori ag amrywiaeth mor eang â phosibl o randdeiliaid erioed, a dyma pam rwyf wedi gofyn am unrhyw argymhellion penodol gan y Pwyllgor a chan eraill. Yn anffodus, nid yw'r argymhellion hynny wedi cael eu gwneud eto.

Hoffwn eich hysbysu fy mod hefyd wedi comisiynu Cymorth Cynllunio Cymru i wneud gwaith ymchwil i'r mater hwn, gyda'r bwriad o wneud argymhellion penodol a'u hymgorffori yn y broses gydsynio.

**Argymhelliad 14: Yn ei hymateb i’r Adroddiad hwn, dylai’r Gweinidog nodi’r amserlenni ar gyfer gwneud rheoliadau o dan adran 30. O ystyried pa mor allweddol yw ymgynghoriad cyhoeddus i’r gyfundrefn newydd, dylai’r Gweinidog gyhoeddi’r rheoliadau drafft ac ymgynghori arnynt.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol.

Gweler fy ymateb i argymhellion 2 a 3 yr adroddiad a nododd fy nghynigion ar gyfer darparu amserlen ar gyfer gwneud rheoliadau ac ymgynghori arnynt, gan gynnwys y rhai a wnaed o dan adran 30 y Bil.

**Argymhelliad 15: Dylai'r Gweinidog gyhoeddi canllawiau i randdeiliaid ar arfer gorau a safonau disgwyliedig ar gyfer ymgynghori â'r gymuned.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Rwy'n ymrwymedig i gyhoeddi canllawiau i ddarpar ddatblygwyr ar arfer gorau wrth ymgynghori ac ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid eraill.

**Argymhelliad 16. Mewn ymateb i'r Adroddiad hwn, dylai'r Gweinidog nodi'r amgylchiadau lle mae'n ystyried y gellid penderfynu ar gais drwy ymchwiliad.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Rwy'n disgwyl i'r rhan fwyaf o geisiadau seilwaith gael eu hystyried gan ddefnyddio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig neu'r weithdrefn gwrandawiad. Mae'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn briodol lle nad yw'r materion yn gymhleth, bod modd eu deall yn glir o'r dogfennau, nad oes angen eu profi mewn digwyddiad llafar a bod budd cyfyngedig i'r cyhoedd.

Ar gyfer ceisiadau mwy cymhleth, mae gwrandawiad yn darparu lleoliad anffurfiol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd gan yr Arolygydd. Gall y rhai sy'n mynychu ddod â chynghorwyr proffesiynol gyda nhw, ond ni fydd cyflwyniad ffurfiol o dystiolaeth, croesholi na chyflwyniadau ffurfiol.

Ymchwiliad yw un o'r gweithdrefnau mwyaf ffurfiol ac mae ond yn debygol o gael ei drefnu lle ceir materion cymhleth neu dystiolaeth dechnegol. Er nad llys barn mohono, bydd y gweithrediadau a ddefnyddir yn aml yn ymddangos yn eithaf tebyg. Mae ymchwiliad yn agored i'r cyhoedd a chaiff ei gynnal er mwyn ymchwilio i dystiolaeth a phrofi'r dystiolaeth honno'n ffurfiol, fel arfer drwy gwestiynu (croesholi) tystion arbenigol a thystion eraill. Gall eiriolwyr gynrychioli'r partïon yn ffurfiol. Felly, mae'n debygol mai dim ond ar gyfer y prosiectau mwyaf neu fwyaf technegol y bydd angen y weithdrefn hon.

**Argymhelliad 17. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i sicrhau mai Gweinidogion Cymru yw'r penderfynwyr diofyn ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol. Er gwaethaf hyn, dylai'r Gweinidog sicrhau bod y Bil yn cynnwys darpariaethau i alluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod gan awdurdod archwilio'r swyddogaeth o benderfynu ar y cais o dan amgylchiadau penodol penodedig. Dylai rheoliadau bennu'r meini prawf y mae'n rhaid eu cymhwyso wrth wneud cyfarwyddyd o'r fath**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Gweinidogion Cymru yw'r penderfynwyr diofyn eisoes ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol.

Mae Adran 52(1) y Bil yn nodi bod gan yr awdurdod archwilio swyddogaeth i benderfynu ar gais ar gyfer cydsyniad seilwaith ar gyfer math o ddatblygiad a bennir

mewn rheoliadau. Mae Adran 52(2) y Bil yn nodi mai Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am benderfynu ar unrhyw gais arall am gydsyniad seilwaith.

Mae effaith y darpariaethau hyn yn golygu mai dim ond prosiectau a bennir mewn rheoliadauy bydd yr awdurdod archwilio yn penderfynu arnynt. Os na chaiff unrhyw reoliadau eu gwneud, yna Gweinidogion Cymru fyddai'n penderfynu ar bob cais.

Mae Adran 52(4) y Bil yn nodi y gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd mai awdurdod archwilio sy'n gyfrifol am benderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith yn hytrach na Gweinidogion Cymru, neu i'r gwrthwyneb. Mae effaith y ddarpariaeth hon yn golygu mai dim ond prosiectau sy'n cael eu cyfarwyddo fesul achos unigol na fyddai Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt. Os na wneir unrhyw Gyfarwyddiadau, Gweinidogion Cymru fyddai'n penderfynu ar bob cais.

Os bydd y dystiolaeth yn nodi y gall math penodol o gais gael ei gadarnhau gan yr awdurdod archwilio yn y mwyafrif o achosion, yna gellir pennu'r math hwn o gais mewn rheoliadau, ac ni fyddai'n dibynnu ar wneud cyfarwyddyd unigol ym mhob achos.

Nid wyf o'r farn y dylai rheoliadau bennu'r meini prawf y mae'n rhaid eu cymhwyso wrth wneud cyfarwyddyd o dan 52(4). Byddai'r materion y mae'n rhaid eu hystyried yn cynnwys:

- cynigion sy'n destun cryn ddadlau y tu hwnt i'r ardal leol;
- cynigion sy'n codi materion cynllunio newydd;
- cynigion sy'n codi anawsterau cyfreithiol sylweddol;
- cynigion y mae un o Adrannau'r Llywodraeth Ganolog wedi gwrthwynebu iddynt.

O gofio natur y materion hyn, rwy'n ystyried eu bod yn fwy priodol ar gyfer canllawiau, yr wyf yn bwriadu eu cyhoeddi.

**Argymhelliad 18. Dylai'r Gweinidog gyhoeddi'r meini prawf ar gyfer penderfynu ar gyfarwyddyd o dan adran 52.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Byddaf yn cyhoeddi'r meini prawf ar gyfer penderfynu a ddylid cyhoeddi cyfarwyddyd o dan adran 52 o'r Bil. Mae meini prawf tebyg mewn perthynas â phenderfynu a ddylid adfer apêl yn y system gynllunio eisoes wedi'u cyhoeddi.

**Argymhelliad 19. Dylai'r Gweinidog esbonio pam yr oedd y mater o flaenoriaeth datganiadau polisi seilwaith dros gynlluniau cenedlaethol yn dal i gael ei ystyried ar ôl cyflwyno'r Bil.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Rwyf wedi ystyried y dulliau amrywiol sydd ar gael yn ofalus er mwyn darparu fframwaith polisi cadarn y gellir ystyried ceisiadau seilwaith yn ei erbyn, sydd wedi cynnwys adolygiad o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.

Yn ystod yr adolygiad hwn, rhoddwyd rhagor o ystyriaeth i'r gydberthynas rhwng Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, y cynlluniau a'r polisïau cenedlaethol presennol ac unrhyw ddatganiadau polisi seilwaith yn y dyfodol. Yn unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'n llawer gwell gennyf ddogfennau polisi cyfannol yn hytrach na thematig, ac mae gennym eisoes gyfres gynhwysfawr o bolisïau cynllunio cenedlaethol. Os bydd angen polisi cynllunio newydd i helpu i ystyried y cynlluniau hyn, fel rhan o'n dogfennau polisi presennol fyddai'r ffordd orau o wneud hyn.

Bydd y datganiadau hyn yn gweithredu fel dogfennau ategol, gan lenwi bylchau polisi ar gyfer materion newydd. O gofio hyn, mae'r tebygolrwydd y ceir gwrthdaro rhwng dogfennau yn isel, ac mae'n fwy priodol i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau lunio barn gytbwys os oes un yn bodoli.

Yn hyn o beth, rwy'n edrych ymlaen at gyflwyno diwygiad a fydd yn rhoi'r gallu i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau lunio barn gytbwys ar bolisi. Mae'r broses hon o lunio barn gytbwys ar ystyriaethau polisi er mwyn gwneud penderfyniadau ar geisiadau seilwaith wedi'i hen sefydlu, gan gynnwys ar gyfer y cynlluniau hynny a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru o dan y broses ‘Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol’ bresennol.

**Argymhelliad 20. Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â rhanddeiliaid i fynd i’r afael â phryderon am yr angen am ddatganiadau polisi seilwaith o dan adran 53 i lenwi bylchau polisi mewn cynlluniau cenedlaethol.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae gennym gyfres gynhwysfawr o bolisïau cenedlaethol ar ffurf Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, y Cynllun Morol, Polisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol ategol. Mae polisi cynllunio presennol yn darparu dull cyfannol sefydledig lle y rhoddir cyfrif am faterion ac effeithiau lleol gan wneuthurwyr penderfyniadau drwy bwyso a mesur yr ystyriaethau polisi thematig gwahanol fesul achos.

Mae hyn yn darparu'r dull hyblyg a phragmataidd sydd ei angen i alluogi i gynlluniau seilwaith gael eu cyflwyno yn y lleoliadau priodol ledled Cymru. Os caiff unrhyw fylchau eu nodi lle mae angen llunio datganiadau polisi seilwaith yn unol ag arferion safonol, byddwn yn ymgynghori â'r holl randdeiliaid perthnasol.

**Argymhelliad 21. Dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i sicrhau bod datganiadau polisi seilwaith yn cael eu hystyried a’u cytuno gan y Senedd.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Bwriedir i'r datganiadau hyn gael eu paratoi o dan amgylchiadau eithriadol lle na ellir diweddaru ein cynlluniau a'n polisïau presennol o fewn y graddfeydd amser gofynnol i gefnogi'r gyfundrefn cydsynio seilwaith newydd. Lle y byddant o bosibl yn cael eu paratoi yn y dyfodol, ni fwriedir iddynt fod yn fesur hirdymor ac yn y pen draw, bydd dogfennau polisi sy'n bodoli yn cael eu diweddaru er mwyn eu cynnwys.

Byddai'r gwaith o baratoi datganiadau polisi yn dilyn llwybr tebyg i'r un a gymerwyd ar gyfer diweddariadau i Bolisi Cynllunio Cymru. O gofio'r angen i ymateb i faterion a datblygiadau newydd mewn technoleg yn gyflym, yn ogystal ag oes fer y dogfennau hyn, nid wyf o'r farn ei bod hi'n briodol gofyn i'r Senedd eu hystyried na'u cymeradwyo.

**Argymhelliad 22. Pan fo Gweinidogion Cymru, yn unol ag adran 124, yn penderfynu dynodi dogfen yn ddatganiad polisi seilwaith at ddiben y Bil, dylai'r Gweinidog hysbysu'r Senedd. Dylai'r Gweinidog sicrhau bod y Senedd wedi ystyried a chytuno ar y ddogfen cyn y gellir gwneud unrhyw ddynodiad o'r fath.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol.

Rwy'n derbyn y dylai Gweinidogion Cymru hysbysu'r Senedd pan fydd datganiad polisi yn cael ei ddynodi. Nid wyf yn derbyn y dylai'r Senedd gytuno ar y datganiadau hyn am y rhesymau a amlinellwyd mewn ymateb i argymhelliad 21.

**Argymhelliad 23. Dylai'r Gweinidog gyflwyno diwygiadau i osod amserlen fanwl ar wyneb y Bil am y cyfnod o 52 wythnos i benderfynu ar gais.**

Rwy'n derbyn egwyddor yr argymhelliad hwn.

Rwy'n credu bod y pwyllgor yn cydnabod bod angen hyblygrwydd yn yr amserlen ar gyfer penderfynu ar gais, gan eich bod wedi nodi'r angen i ymgynghori ar amserlenni yn argymhelliad 24. Mae'r Bil eisoes yn cynnwys amserlen gyffredinol o 52 wythnos a bydd is-amserlenni yn cael eu gosod mewn is-ddeddfwriaeth.

Nodaf fod y Pwyllgor yn awgrymu pŵer Harri VIII yn argymhelliad 24 i newid yr amserlen yn y dyfodol, gan adlewyrchu Deddf Cynllunio 2008. Fodd bynnag, gellir cyflawni'r un effaith drwy osod is-amserlenni mewn is-ddeddfwriaeth, heb ddefnyddio pŵer Harri VIII.

**Argymhelliad 24. Dylai'r Gweinidog ymgynghori â rhanddeiliaid cyn gynted â phosibl i sicrhau bod yr amserlenni ar wyneb y Bil yn briodol. Os yw hi'n credu, o ganlyniad i'r ymgynghoriad, fod angen eu newid, gellir cyflawni hynny drwy is-ddeddfwriaeth**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol.

Rwy'n derbyn y dylid ymgysylltu â rhanddeiliaid ar is-amserlenni. Nid wyf yn cytuno â'r argymhelliad i osod pŵer Harri VIII newydd yn y Bil pan fo'r amserlen gyffredinol ar gyfer penderfynu ar gais eisoes yn y Bil.

Bydd is-ddeddfwriaeth yn gosod is-amserlenni a bydd yr un lefel o sicrwydd yn cael ei chyflawni.

**Argymhelliad 25. Os yw'r Gweinidog yn penderfynu estyn y cyfnod o 52 wythnos yn unol ag adran 56(2), rhaid i'r Gweinidog hysbysu'r Senedd drwy ddatganiad ysgrifenedig. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i roi effaith i hyn.**

Rwy'n cytuno â'r argymhelliad.

Bydd diwygiad i'r perwyl hwn yn cael ei baratoi.

**Argymhelliad 26: Dylai'r Gweinidog nodi'r cymorth a fydd ar gael i awdurdodau cynllunio lleol pan fo angen cymryd camau gorfodi.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad.

Nodaf y pryderon a godwyd gan randdeiliaid yn ystod y sesiynau tystiolaeth a chysylltodd fy swyddogion â'r cyrff hynny er mwyn gallu deall eu pryderon yn well. Gallaf gadarnhau y bydd canllawiau manwl a chadarn ar gael i roi cymorth i awdurdodau cynllunio lleol wrth gymryd unrhyw gamau gorfodi.

**Argymhelliad 27. Dylai'r Gweinidog ystyried a ddylai darpariaethau ar "bwerau clo" neu "padlock powers" fel y'u gelwir mewn perthynas â hysbysiadau stop dros dro gael eu cynnwys yn y Bil.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Byddaf yn ystyried yr angen am bŵer clo mewn perthynas â hysbysiadau stop dros dro.

**Argymhelliad 28. Dylai'r Gweinidog egluro mewn canllawiau ym mha ffyrdd y gall y cyhoedd godi pryderon am ddatblygiad anawdurdodedig.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Byddaf yn sicrhau bod canllawiau yn egluro pryd y gall camau gorfodi fod yn briodol ac yn angenrheidiol, yn ogystal â sut y gall aelodau o'r cyhoedd roi gwybod am unrhyw achosion canfyddedig o fynd yn groes i'r canllawiau i'r awdurdod gorfodi perthnasol.

**Argymhelliad 29: Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ystod y ddadl Cyfnod 1 ar drafodaethau ag ymgyngoreion, awdurdodau cynllunio lleol a rhanddeiliaid eraill ynglyn â sut y gellir adennill costau'n llawn.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Yn ystod dadl Cyfnod 1, rhoddais ddiweddariad i'r Senedd.

Bu trafodaethau yn mynd rhagddynt yn barhaus â'r holl randdeiliaid wrth ddatblygu'r Bil, ac yn ystod Cyfnod 1 o broses graffu'r Senedd. Rwy'n ymrwymedig i adennill costau'n llawn, ac rwy'n rhagweld y bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ddarparu gwasanaethau y codir tâl amdanynt. Nid oes gennyf ragor o fanylion am gostau ar hyn o bryd, gan y bydd y rhain yn destun ymgynghoriad ffurfiol, ochr yn ochr ag is-ddeddfwriaeth.

Rwy'n croesawu unrhyw safbwyntiau a allai fod gan randdeiliaid neu aelodau o'r Senedd ar y mater hwn.

**Argymhelliad 30. Dylai'r Gweinidog esbonio ei dealltwriaeth o ystyr prosiect o "sylwedd gwirioneddol" yn adran 122 a lefel y ddirwy y gellir ei rhoi am drosedd o dan yr adran hon.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Er mwyn dangos bod yr ymgeisydd yn 'ystyried prosiect o sylwedd gwirioneddol', gallai'r ymgeisydd ddarparu'r wybodaeth ganlynol er enghraifft:

- A yw'r ymgeisydd wedi rhoi hysbysiad o dan adran 29 o'r Bil;
- A yw'r ymgeisydd wedi gofyn am Gyngor cyn ymgeisio.
- Manylion ynghylch pa gam yn yr ymgynghoriad cyn ymgeisio y mae'r Ymgeisydd wedi'i gyrraedd ar y prosiect; neu,
- a yw'r ymgeisydd wedi gofyn am broses sgrinio neu farn gwmpasu.

Yn ogystal, er mwyn dangos bod y prosiect arfaethedig yn un y 'mae angen gwirioneddol am gael mynediad i'r tir', dylai'r ymgeisydd esbonio pam y mae angen mynediad. Gall y dystiolaeth y bydd yr ymgeisydd o bosibl am ei darparu i ddangos hyn gynnwys manylion am yr arolygon a'r gwaith arfaethedig.

Nid oes terfyn i faint o ddirwy all gael ei gosod. Fodd bynnag, bydd y canllawiau dedfrydu yn darparu gwybodaeth am lefelau'r ddirwy i'w gosod ar gyfer trosedd benodol.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JJ/3057/23

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

9 Ionawr 2024

Annwyl Llŷr

**Bil Seilwaith (Cymru)**

Diolch i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith am ei adroddiad ar Fil Seilwaith (Cymru), a gyhoeddwyd ar 24 Tachwedd 2023.

Yn fy ymateb i argymhelliad 2, cytunais i ddarparu amserlen ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r Bil. Mae'r amserlen ynghlwm fel atodiad i'r llythyr hwn.

Wrth baratoi ar gyfer y gwaith hwn, rwy'n ymwybodol y bydd y Senedd yn craffu eto ar y Bil a'n bod wedi datgan ein bwriad i'r ymgysylltu ar yr is-ddeddfwriaeth fod yn agored ac yn ystyrlon. Fe all y ddwy ystyriaeth effeithio ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth, a'r modd y cânt eu gwneud. Mae'r amserlen felly yn dangos sut ydym yn disgwyl ar hyn o bryd y caiff y ddeddfwriaeth ei datblygu.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Atodiad 1: cynigion ar gyfer eu gweithredu

### Amserlen

- Datganiad trosiannol o fwriad y polisi: gaeaf 2023/24
- Ymgysylltu / Ymgynghoriad 1: gwanwyn/haf 2024
- Ymgysylltu / Ymgynghoriad 2: haf/hydref 2024
- Rheoliadau hydref-gaeaf 2024/25
- Gweithredu: canol 2025

<u>Datganiad o fwriad y polisi: darpariaethau pontio.</u>

Yn fy ymateb i argymhelliad 6, nodais fy mod yn bwriadu egluro'r trefniadau pontio yn fanylach, hynny cyn yr ymgynghoriad ehangach ar yr is-ddeddfwriaeth. Bydd datganiad diwygiedig o fwriad y polisi fydd yn esbonio'n fanwl ein cynigion cyfredol yn cael ei gyhoeddi yng ngaeaf 2023/24.

Ymgysylltir ymhellach â rhanddeiliaid  a bydd canlyniad hynny'n llywio'r cynigion hyn. Mae sgyrsiau â rhanddeiliaid wedi dechrau yn dilyn y sesiynau craffu.

<u>Ymgysylltu / Ymgynghoriad 1</u>
Rwy'n rhagweld y bydd yr ymgynghoriad cam cyntaf yn ymdrin â ffioedd ac ag ymgysylltu / ymgynghori cyn ymgeisio.

Rwy'n rhagweld y bydd yr ymgynghoriad hwn yn 'alwad am dystiolaeth' agored iawn gan fy mod am gasglu cymaint o dystiolaeth â phosibl cyn penderfynu'n derfynol ar bolisi. Bydd y papur yn disgrifio'r broblem y bydd angen ei datrys a'r amcanion y bydd angen eu cyflawni gan gymell ymateb manwl.

Bydd y dystiolaeth a gesglir yn llywio ail ymgynghoriad manwl ar y materion hyn.

<u>Ymgysylltu / Ymgynghori 2</u>
Rwy'n rhagweld y bydd yr ail gyfres o ymgynghoriadau yn ymdrin â phob maes polisi. Bydd yr ymgynghoriadau hyn yn cynnwys cynigion manwl, er mwyn i ymatebion allu canolbwyntio ar gynnwys y rheoliadau terfynol. Er fy mod yn bwriadu cyhoeddi cynigion manwl, rwy'n ymwybodol y byddwn dal wrthi'n ffurfio'n polisïau ar y pryd, ac felly yn annhebygol o gynnwys deddfwriaeth ddrafft.

### Is-ddeddfwriaeth

Bydd yr is-ddeddfwriaeth yn cael ei datblygu yn ystod ac ar ôl y cyfnod ymgynghori. Er bod nifer o bwerau gwneud rheoliadau yn y Bil, rwy'n rhagweld y byddan nhw'n cyfateb i OSau 6-8. Rwy'n rhagweld y bydd yr OSau yn cael eu grwpio fel a ganlyn:

<u>Rheoliadau Seilwaith (Ceisiadau: Ffurfiau a Gweithdrefnau Rhagnodedig) (Cymru)</u>

- Nodi materion ynghylch cael gwybodaeth am dir;
- Nodi gofynion y weithdrefn cyn ymgeisio, gan gynnwys gofynion hysbysu a chyhoeddusrwydd;
- Nodi'r gofynion o ran cyflwyno a dilysu cais, gan gynnwys ffurflenni, cynnwys y cais a'r amserlen dilysu;
- Cyhoeddusrwydd ac ymgynghori ar y cais;
- Nodi pwy y mae'n rhaid ymgynghori â nhw, h.y. "ymgyngoreion statudol";
- Nodi'r broses ymgeisio ar gyfer newid cydsyniadau;
- Y weithdrefn ar gyfer gwneud gorchymyn yn sylweddol wahanol i'r hyn y gwnaed cais amdano;

- Hysbysiad o benderfyniad a rhesymau dros y penderfyniad.

Rheoliadau Ffioedd Seilwaith (Cymru)

- Nodi lle gellir talu ffi am gyflawni swyddogaethau a gwasanaethau cydsynio seilwaith, neu swyddogaeth a gyflawnir drwy orchymyn o dan adran 127;
- Pennu'r dull ar gyfer cyfrifo'r ffi sydd i'w dalu.

Rheoliadau Seilwaith (Partïon â Buddiant a Darpariaethau Rhagnodedig Amrywiol) (Cymru)

- Nodi materion ynghylch ceisiadau dan gyfarwyddyd o dan adran 22 a 24, gan gynnwys y cyfnod ymateb i gais, a'r categorïau o geisiadau y caniateir eu cyfarwyddo;
- Darparu gwybodaeth i CNC, awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru am y gofyn i ddarparu gwasanaethau cyn ymgeisio;
- Nodi materion ynghylch cadw'r gofrestr a rhoi hysbysiadau;
- Nodi rhai cydsyniadau a thrwyddedau ac ati, y gellir dileu'r gofyn amdanynt mewn gorchymyn cydsyniad datblygu;
- Rhagnodi nifer o faterion amrywiol megis hyd gorchymyn cydsyniad datblygu ac eithrio rhai camau o'r diffiniad o "weithred berthnasol".

Y Rheolau Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) (Cymru)

- Manylion y weithdrefn ar gyfer archwilio ceisiadau o'r fath, gan gynnwys penderfynu ar y weithdrefn sydd i'w dilyn, a'r weithdrefn i'w dilyn wedi hynny o dan sylwadau ysgrifenedig ac mewn gwrandawiad neu ymchwiliad;
- Newidiadau lle rhoddir cyfarwyddyd sy'n cyfyngu ar ddatgelu tystiolaeth oherwydd diogelwch cenedlaethol.

Rheoliadau Seilwaith (Caffael Gorfodol) (Cymru)

- Rhagnodi'r ffurflenni y mae'n rhaid eu defnyddio mewn cysylltiad â chaffael rhai mathau o dir yn orfodol;
- Nodi'r weithdrefn sydd i'w dilyn lle cynigir cynnwys mewn gorchymyn sy'n rhoi cydsyniad datblygu, ddarpariaeth sy'n awdurdodi caffael tir yn orfodol nad oedd wedi'i chynnwys yn y cais am y gorchymyn.

Arall

- Mae'n debygol hefyd y bydd yna offerynnau statudol i ddelio â newidiadau canlyniadol ac i gychwyn darpariaethau.

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

**—**

**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565

**—**

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Julie James AS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd

11 Ionawr 2024

Annwyl Weinidog,

Safle glo brig Ffos-y-Frân

Rwy'n ysgrifennu ar ran y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith i fynd ar drywydd ein gohebiaeth flaenorol ynghylch gwaith glo brig Ffos-y-Fran. Rydym yn gwerthfawrogi eich ymateb manwl ar 15 Medi 2023 i'n hymchwiliad cychwynnol. Fodd bynnag, mae meysydd yn parhau lle mae angen rhagor o eglurder. Gobeithiwn y gallwch roi rhagor o eglurder ynghylch rôl Llywodraeth Cymru nawr bod y camau cyfreithiol yn erbyn gweithredwyr y safle wedi dod i ben.

Fel y byddwch yn deall, mae'r Pwyllgor yn parhau i bryderu’n fawr iawn am y gwaith i adfer safle Ffos-y-Fran, ac o bosibl safleoedd gwaith glo brig eraill yng Nghymru. Mae wedi’i adrodd yn eang bod bwlch ariannol sylweddol yn bodoli rhwng y costau adfer amcangyfrifedig a'r arian a neilltuwyd gan y cwmni mwyngloddio.

1. Dywedwyd mai dim ond £15 miliwn yr oedd y cwmni mwyngloddio wedi'i neilltuo ar gyfer gwaith adfer. Yn eich llythyr, rydych yn cyfeirio at hyn fel “blaendal o £15 miliwn” sydd i fod i “ariannu rhywfaint o waith adfer os na fydd gweithredwr y safle yn cydymffurfio â'r amodau adfer”. A yw'n wir nad yw'r cwmni mwyngloddio wedi neilltuo unrhyw arian y tu hwnt i’r blaendal blaenorol?
2. Amcangyfrifir bod y costau adfer ar gyfer y safle yn amrywio o £120 miliwn i £175 miliwn. Pa asesiad, os o gwbl, y mae Llywodraeth Cymru wedi’i wneud o gyfanswm y gost adfer ar gyfer safle Ffos-y-Fran?
3. Pa fesurau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y cwmni mwyngloddio yn cyflawni ei rwymedigaethau ariannol o ran adfer? Pa gynllunio wrth gefn a wnaed rhag ofn y bydd y cwmni’n methu â chyflawni’r rhwymedigaethau hyn?

4. Yn eich llythyr, gwnaethoch ddweud, yn absenoldeb cyllid digonol, mai cyfrifoldeb y Cyngor fyddai gwneud y safle'n ddiogel ac, yn y tymor hwy, cwblhau'r gwaith adfer. Fe wnaethoch egluro bod trafodaethau amlasiantaeth ar y gweill i baratoi trefniadau wrth gefn pe bai'r safle'n cael ei adael. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed?
5. Pa fathau o gytundebau sy'n bodoli ledled Cymru i ariannu'r gwaith o adfer safleoedd ar ôl i weithrediadau ddod i ben? A ydych yn fodlon bod digon o fesurau diogelu ar waith i sicrhau bod yr arian yn ddigonol ar gyfer adfer neu wella'r safle yn llawn?
6. A oes safleoedd gwaith glo brig gweithredol neu anweithredol penodol sy'n peri pryder penodol nad yw'r arian a gronnwyd (trwy fondio a mecanweithiau eraill) yn ddigon i dalu ar gyfer y rhwymedigaethau ariannol sy'n gysylltiedig ag adfer ac ôl-ofal yn unol â'r amodau cynllunio y cytunwyd arnynt?
7. A yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw waith ar faterion yn ymwneud ag adfer safleoedd glo brig ers ei hadroddiad yn 2014 "Ymchwil i'r methiant i adfer safleoedd glo brig yn Ne Cymru"? Pa gamau, os o gwbl, a gymerodd Llywodraeth Cymru yng ngoleuni canfyddiadau'r adroddiad?

Mae'n anochel y bydd rhoi terfyn ar weithrediadau yn Ffos-y-Fran yn effeithio ar y gweithlu lleol. Mae trosglwyddo'r gweithwyr hyn i gyfleoedd cyflogaeth newydd yn hollbwysig.

8. Yn eich llythyr, rydych chi'n cyfeirio at sawl rhaglen a menter sydd â'r bwriad o gefnogi cyn-weithwyr ar y safle. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y gwaith hwn a'i lwyddiant hyd yn hyn wrth ddod o hyd i gyflogaeth arall ar gyfer y gweithlu?

I gloi, mae'r Pwyllgor yn pwysleisio pwysigrwydd rheoli tryloyw ac effeithiol o'r broses drosglwyddo yn sgil terfynu gweithrediadau mwyngloddio yn Ffos-y-Fran. Credwn fod mynd i'r afael â'r pryderon hyn yn hanfodol ar gyfer uniondeb amgylcheddol yr ardal a llesiant ei thrigolion.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb erbyn dydd Iau 22 Chwefror 2024 fan bellaf.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. / We welcome correspondence in Welsh or English.


Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon